Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 07/2011

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Arolwg o'r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion

# Arolwg o’r Gwasanaeth Cymorth Iaith Gymraeg i Ysgolion

**Einir Burrowes, Nia Bryer, Huw Bryer, Cefin Campbell ac Eluned Charles**
**Old Bell 3 Cyf a Dateb**

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Alison Rees
Yr Is-adran Ymchwil Cymdeithasol
Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 20801125
Email: Alison.Rees@cymru.gsi.gov.uk

Llywodraeth Cymru, 2011
© Hawlfraint y Goron

**CYNNWYS**

CRYNODEB GWEITHREDOL .......... 2
1 CYFLWYNIAD .......... 9
1.1 DIBEN YR ASTUDIAETH .......... 9
1.2 METHODOLEG .......... 11
1.3 FFURF YR ADRODDIAD .......... 12
2 Y CYD-DESTUN AR GYFER YR ASTUDIAETH .......... 13
2.1 CEFNDIR GWASANAETH YR ATHRAWON BRO .......... 13
2.2 CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL .......... 14
3. GWEITHLU ATHRAWON BRO HEDDIW .......... 22
3.1 MAINT A PHROFFIL Y GWEITHLU .......... 22
3.2 EU LLE O FEWN STRWYTHURAU AWDURDODAU LLEOL .......... 28
3.3 RHEOLI GWASANAETHAU ATHRAWON BRO .......... 31
3.4 ARIANNU GWASANAETH YR ATHRAWON BRO .......... 35
4. SWYDDOGAETH ATHRAWON BRO .......... 45
4.1 CYFLWYNIAD .......... 45
4.2 CYMORTH YMARFEROL I YSGOLION .......... 46
4.3 ADDYSGU'R GYMRAEG I 'HWYRDDYFODIAID' .......... 59
4.4 DATBLYGU ADNODDAU ADDYSGU A DYSGU .......... 65
4.5 CYFLWYNO CYRSIAU HYFFORDDIANT MEWN SWYDD .......... 70
5 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION .......... 81
ATODIAD A: NODAU'R STRATEGAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG .......... 92
ATODIAD B: GWERTH GRANTIAU A DDYRANNWYD GAN FWRDD YR IAITH GYMRAEG .......... 93
ATODIAD C: ISAFSWM GWARIANT CRONFA YSGOLION GWELL .......... 94
ATODIAD Ch: ENGHREIFFTIAU O DEITLAU CYRSIAU A GYFLWYNWYD YN 2009/10 .......... 95
ATODIAD D: LLYFRYDDIAETH .......... 96

## CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf, ar y cyd gyda Dateb a Sbectrwm, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud arolwg o wasanaeth cymorth iaith Gymraeg i ysgolion a gynigir yn lleol gan y 22 Awdurdod Lleol a phartneriaid ac asiantaethau eraill. Gwnaethpwyd y gwaith rhwng Mawrth a Medi 2010.

2. Prif nodau'r arolwg oedd:
    - o edrych ar ariannu a threfniadaeth gwasanaeth yr Athrawon Bro, ac ystyried lled a chwmpas y gwaith a wneir gan Athrawon Bro;
    - o edrych ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac yn y Gymraeg sy'n cael ei ddarparu gan Awdurdod Lleol, a gan gyrff megis CBAC[1] a Chymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)[2];
    - o cynnig argymhellion ar sut i sefydlu mwy o gydweithredu a chost effeithiolrwydd wrth ddarparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn y dyfodol.

3. Y camau a gymerwyd wrth ymgymryd â'r arolwg oedd:
    - o adolygu gwybodaeth gefndirol;
    - o adolygu dogfennau yn ymwneud â'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru;
    - o cynnal trafodaethau wyneb yn wyneb gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol'; a
    - o cynnal trafodaethau wyneb yn wyneb gyda staff allweddol o fewn pob Awdurdod Lleol, yn ogystal â staff o fewn sampl o ysgolion.

### DARGANFYDDIADAU

4. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i'r achos o adfer ac adfywio'r iaith Gymraeg ac mae ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn amlygu'r rhan allweddol sydd gan ysgolion i'w chwarae wrth wireddu'r uchelgais hwn. Er mai addysgu a dysgu Cymraeg fel

[1] Corff dyfarnu sydd hefyd yn darparu deunyddiau addysgol yw CBAC
[2] Nod CYDAG yw hyrwyddo a datblygu pob agwedd ar addysg ddwyieithog

iaith gyntaf yw prif ffocws y Strategaeth, mae hefyd yn nodi dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cynnydd mewn safonau addysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

5. Ochr yn ochr â hyn, amlyga datblygiadau megis cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg diwygiedig a Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd Estyn[3] yr angen am sgiliau iaith Gymraeg cynyddol uwch ymhlith yr ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion, ac mewn ysgolion sydd ddim yn rhai cyfrwng Cymraeg yn fwy penodol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn galw am ddatblygu isadeiledd cydlynol cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer darparu hyfforddiant mewn swydd ar gyfer addysgu cyfrwng Cymraeg ac yn yr iaith Gymraeg.

6. Wrth gwrs, mae Awdurdodau Lleol eisoes yn cynnig gwasanaethau cefnogi'r iaith Gymraeg i ysgolion. Ariennir y rhain gan:

- o yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o fewn Llywodraeth y Cynulliad, trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell. Yn 2009/10, cynrychiola hyn ychydig dros £2.2 miliwn, a dyrannwyd tua 58 y cant o'r arian yn uniongyrchol i ysgolion;
- o Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a gyfrannodd ychydig dros £2.9 miliwn yn 2009/10. Deillia tua £2.3 miliwn o'r arian hwn o Adran Diwylliant a Chwaraeon o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru (dan Adran 21 o Ddeddf Addysg 1980), gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfrannu'r gweddill o'i adnoddau craidd; ac
- o Awdurdodau Lleol. Rhyngddynt, cyfranasant o leiaf £3.3 miliwn yn 2009/10.

7. Mae Athrawon Bro yn elfen ganolog o wasanaethau cefnogi'r iaith Gymraeg i ysgolion. Ar draws Cymru, cyflogir 138 unigolyn (cyfwerth â 126 llawn amser) fel Athrawon Bro neu staff Canolfannau

[3] Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Hwyrddyfodiaid[4]. Menywod yw'r mwyafrif llethol o Athrawon Bro ac mae proffil oed y gweithlu yn tueddu tuag at unigolion dros 40. Caiff y rhan fwyaf o Athrawon Bro eu cyflogi ar amodau cyflogaeth athrawon ac yn gweithio felly yn ystod y tymor ysgol yn unig, er bod rhai yn cael eu cyflogi ar amodau Soulbury[5].

8. Yn gyffredinol, mae timau Athrawon Bro yn rhan o'r Timau Gwella Ysgolion, ac yn aml o dan fantell swyddog gwella ysgolion sydd â chyfrifoldeb penodol am yr iaith Gymraeg. Mewn rhai ardaloedd, mae Timau Gwella Ysgolion yn gweithio ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol, unai o dan drefniadau consortiwm, neu gydag is-sefydliadau yn trefnu a darparu gwasanaethau ar ran Awdurdodau Lleol.

9. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Athrawon Bro yn amrywio o ardal i ardal ac yn dibynnu llawer iawn ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn gwahanol rannau o'r wlad. Serch hynny gellir rhannu eu gwasanaethau, yn fras, yn bedwar categori cyffredin:
   - rhoi cefnogaeth ymarferol i ysgolion wrth iddynt addysgu'r Gymraeg neu ddefnyddio'r Gymraeg i addysgu pynciau eraill;
   - addysgu'r Gymraeg i hwyrddyfodiaid;
   - datblygu adnoddau addysgu a dysgu; a
   - cyflwyno cyrsiau hyfforddiant mewn swydd (HMS).

10. Er bod Athrawon Bro yn cael eu hystyried fel athrawon peripatetig y Gymraeg ar un adeg, mae eu gwaith, erbyn hyn, yn canolbwyntio i rannau helaeth ar gefnogi ysgolion i gymryd perchnogaeth dros addysgu'r Gymraeg ac o ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng. Mae'r rhan fwyaf o amser yr Athrawon Bro yn cael ei dreulio mewn ysgolion cynradd sydd ddim yn rhai cyfrwng Cymraeg, a'u prif swyddogaeth yno yw cynnig hyfforddiant yn y gweithle i ymarferwyr trwy roi cymorth iddynt addysgu'r Gymraeg fel pwnc neu addysgu pynciau eraill drwy

[4] Unedau addysgol arbennigol yw Canolfannau Hwyrddyfodiaid sy'n galluogi rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg ac sy'n symud i ardaloedd neilltuol, i ddysgu'r Gymraeg yn gyflym fel y medrant ymdopi gydag addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn eu hysgolion newydd
[5] Fforwm cydfargeinio cyflogau ac amodau cyflogaeth staff cynghorol Awdurdodau Lleol yw Pwyllgor Soulbury

gyfrwng y Gymraeg. Mae’r agwedd hon o’u gwaith yn aml yn ategu rhaglenni HMS a gynigir i ymarferwyr.

11. Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn ganmoliaethus o frwdfrydedd ac egni Athrawon Bro wrth iddynt hyrwyddo ac addysgu’r iaith Gymraeg.

12. Er hynny, mae sefyllfa’r Gymraeg mewn rhai ysgolion yn parhau i fod yn fregus ac, er bod Athrawon Bro yn allweddol wrth addysgu’r Gymraeg yn yr ysgolion hyn, cydnabuwyd nad ydynt yn adnodd digonol, yn enwedig o ystyried datblygiadau polisi diweddar, megis cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen, cyflwyno’r Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg diwygiedig a chyflwyno asesiadau o gyraeddiadau disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae ysgolion (gan gynnwys ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog mewn rhai ardaloedd) hefyd yn dibynnu ar Athrawon Bro i’w cefnogi i sicrhau dilyniant ieithyddol disgyblion wrth iddynt bontio o’r cynradd i’r uwchradd, yn ogystal â threfnu gweithgareddau trochi ac allgyrsiol yn ymwneud â’r Gymraeg.

13. Dechreuodd rhai Awdurdodau Lleol dargedu gwasanaethau eu Hathrawon Bro yn sgil cyfuniad o bethau, megis, gwerthusiadau blaenorol, datblygiadau polisi diweddar a chyllidebau’n tynhau. Bu eraill yn fwy cyndyn o wneud hyn, oherwydd nad oes gan ysgolion o fewn eu hardaloedd y capasiti i gyflawni eu cyfrifoldebau heb gefnogaeth gan Athrawon Bro.

14. Mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid ar gael o fewn ardaloedd wyth o Awdurdodau Lleol. Mae’r rhain yn galluogi mewnfudwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg i ddysgu’r iaith yn gyflym fel y medrant ymdopi gydag addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn eu hysgolion newydd. Gwasanaethau’r rhan fwyaf o’r Canolfannau ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, er bod Canolfan Uwchradd wedi ei sefydlu yng Ngwynedd i wasanaethu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3.

15. Amrywia natur a dwyster y profiadau a gynigir o fewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid o un ardal i'r llall. Mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid mewn amryw o ardaloedd hefyd yn cynnig gwasanaethau atodol, megis 'ôl-ofal' i ddisgyblion a'u hysgolion, a gweithgareddau i gysylltu â theuluoedd disgyblion.

16. Canmolwyd y gwaith a wneir gan Ganolfannau Hwyrddyfodiaid ac, mewn rhai ardaloedd, fe'u hystyrir yn hanfodol i gadw nodweddion ieithyddol ysgolion mewn cymunedau Cymraeg.

17. Dros y blynyddoedd, mae timau Athrawon Bro ar draws Cymru wedi buddsoddi llawer o amser mewn datblygu adnoddau addysgu, dysgu ac asesu i'w defnyddio gan ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth. Datblygwyd rhaglen strwythuredig (Cynllun y Llan) sy'n cyflwyno'r iaith Gymraeg yn gynyddol i ddisgyblion sydd ddim yn siarad yr iaith gan staff Canolfannau Hwyrddyfodiad y gogledd. Bu peth cydweithio rhwng Athrawon Bro ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol, ond yn ddiamheuol, bu dyblygu sylweddol wrth ddatblygu mathau penodol o adnoddau.

18. Mae rhai o'r adnoddau a gynhyrchwyd yn enghreifftiau o ymarfer dda, ond, yn anffodus, ychydig o dystiolaeth sydd yna bod adnoddau o'r fath yn cael eu rhannu yn eang.

19. Cynigir ystod o gyfleoedd i athrawon dderbyn hyfforddiant iaith/cyfrwng Cymraeg[6] y tu allan i'r dosbarth gan Awdurdodau Lleol, yn aml ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol cyfagos. Darperir rhaglenni HMS gan aelodau o dimau Gwella Ysgolion fel arfer, er bod Athrawon Bro yn cael mewnbwn o dro i dro. Yn ogystal, darperir cyrsiau HMS gan CBAC a CYDAG.

20. Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn cynnig cyrsiau dwys, sy'n cyfuno hyfforddiant iaith a methodoleg, i ddatblygu sgiliau iaith ymarferwyr

[6] Hynny yw, y sgiliau sydd eu hangen i addysgu Cymraeg fel pwnc a'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i addysgu pynciau eraill

sydd heb fawr neu ddim Cymraeg. Yn gyffredinol, credid bod y cyrsiau hyn yn gwneud llawer i feithrin agweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg ymarferwyr ac yn cynyddu eu parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol. Fodd bynnag, roedd peth pryder nad ydynt yn datblygu sgiliau iaith ymarferwyr i raddfa ddigonol i'w galluogi i addysgu'r Gymraeg neu i ddefnyddio'r iaith mewn unrhyw sefyllfa heblaw'r lefel fwyaf arwynebol yn yr ystafell ddosbarth.

21. Credid bod dau gwrs iaith a methodoleg ddwys (Cwrs Iaith a Methodoleg ail iaith (CIMCai) a'r Cynllun Sabothol yn Sir Benfro) yn cynnig enghreifftiau o arfer dda, fodd bynnag, mae prinder tystiolaeth ar hyn o bryd yn golygu nad oes modd asesu eu heffeithlonrwydd a'u rhinweddau unigol.

22. Nid yw Awdurdodau Lleol fel y cyfryw yn cynnig cyrsiau iaith i ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog. Serch hynny, maent yn cynnig cyrsiau (yn aml dan ambarél rhaglen genedlaethol hyfforddiant mewn swydd cyfrwng Cymraeg CBAC) sy'n ymwneud ag addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**ARGYMHELLION**

23. Mae'r adroddiad yn cynnig 12 argymhelliad yn ymwneud â:

1. Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod cyrsiau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon y mae yn eu noddi yn cynnwys modiwlau gorfodol sydd â'u ffocws ar ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a datblygu sgiliau i ddysgu Cymraeg fel ail iaith;
2. Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydweithio â rhanddeiliaid priodol i ddylunio a pheilota rhaglen Gymru-eang i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr sydd ag ychydig o afael ar yr iaith, gan ddefnyddio profiadau'r rhanddeiliaid rheiny o ddarparu cwrs CIMCai a'r Cynllun Sabothol;

3. Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydweithio ag Awdurdodau Lleol i werthuso effaith y dulliau cyfredol o ddatblygu sgiliau Cymraeg a sgiliau pedagogaidd cysylltiedig ymarferwyr, gan ddefnyddio ffon fesur gyffredin newydd wedi ei seilio ar lefelau Cymraeg i Oedolion;
4. Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ganolbwyntio arian grant ar Awdurdodau Lleol sy’n dangos eu bod yn bwriadu targedu gwasanaethau Athrawon Bro er mwyn datblygu capasiti cynaliadwy o fewn ysgolion;
5. Awdurdodau Lleol i dargedu cefnogaeth ar ysgolion sy’n cyflwyno'r cynlluniau mwyaf cydlynol a realistig er mwyn datblygu eu capasiti i addysgu a defnyddio’r iaith Gymraeg;
6. Awdurdodau Lleol i osod targedau effaith ‘Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol’ (CAMPUS) a chasglu data sy’n dangos effaith ag effeithlonrwydd gwasanaethau Athrawon Bro;
7. Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau i gysoni’r adnoddau sy’n cael eu defnyddio i gysoni lefelau asesiadau disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn Cymraeg fel ail iaith.
8. CBAC i hyrwyddo rhannu a chydgysylltu’r broses o ddatblygu deunyddiau addysgu a dysgu;
9. Lywodraeth Cynulliad Cymru a’r Awdurdodau Lleol priodol i ystyried sut y gellid lledaenu’r defnydd a wneir o adnoddau a ddatblygwyd gan Ganolfannau Hwyrddyfodiaid yng ngogledd Cymru i ardaloedd eraill;
10. Lywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ymrwymo i neilltuo cyllid hir dymor i gefnogi Canolfannau Hwyrddyfodiaid, fel bo’r angen;
11. Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfuno’r ffrydiau sy’n bodoli ar hyn o bryd er mwyn creu un cynllun grant cenedlaethol fyddai’n cael ei weinyddu gan Lywodraeth y Cynulliad, tra hefyd yn ymrwymo i warchod cyllideb gyfwerth â’r grantiau presennol;
12. Lywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso gweithio ar draws ffiniau rhwng timau o Athrawon Bro er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 DIBEN YR ASTUDIAETH

1.1.1 Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf, ar y cyd gyda Dateb a Sbectrwm, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal arolwg ymchwiliol o'r gwasanaeth cymorth iaith Gymraeg i ysgolion a gynigir yn lleol gan y 22 Awdurdod Lleol a phartneriaid ac asiantaethau eraill. Gwnaethpwyd y gwaith rhwng Mawrth a Medi 2010.

1.1.2 Roedd gan yr astudiaeth ddau brif nod. Y cyntaf o'r rhain oedd edrych ar ariannu a threfniadaeth gwasanaeth yr Athrawon Bro, ac ystyried lled a chwmpas y gwaith a wneir yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol yn ystod cyfnod yr adolygiad, a'i gymharu â'r gweithgaredd a wnaed mewn blynyddoedd ariannol blaenorol.

1.1.3 Roedd y nod yma yn esgor ar bum amcan, sef:

- o arolygu gwasanaeth yr Athrawon Bro o fewn yr Awdurdodau Lleol (neu yn Cynnal ac ESIS[7]) yn nhermau sut y mae yn cael ei reoli, ei gynllunio, ei strwythuro a'i gynnig yn unol â thargedau a nodau Cynlluniau Plant a Phobl Ifainc y 22 Awdurdod Lleol, Cynlluniau Addysg Gymraeg y 22 Awdurdodau Lleol, ac amodau grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- o edrych ar berfformiad yn erbyn y targedau sy'n cael eu cytuno yn flynyddol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol â'r dystiolaeth y gellir ei chanfod yn adroddiadau cynnydd ac adroddiadau terfynol yr Awdurdodau Lleol ar y gwasanaeth hwn;
- o edrych ar gyfraniad yr Athrawon Bro at addysgu trochi yn y Canolfannau i Hwyrddyfodiaid (ni fydd hyn yn cynnwys edrych ar yr addysgu trochi a wnaed fel rhan o brosiect trochi Bwrdd yr Iaith Gymraeg oherwydd gwnaed hyn eisoes);

[7] Cyrff a sefydlwyd gan Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol yw Cynnal ac ESIS. Gwasanaethir Gwynedd a Mon gan Cynnal a gwasanaethir Caerffili, Merthyr Tudful Pen-y-Bont ar Ogwr, a Rhondda Cynon Taf gan ESIS

- o nodi cryfderau allweddol yr Athrawon Bro ac unrhyw rwystrau/materion a allai amharu ar eu heffeithiolrwydd;
- o darparu argymhellion ynglŷn â sut i adeiladu ar waith yr Athrawon Bro, gan ddefnyddio arfer orau/gwersi a ddysgwyd o'u gwaith mewn ysgolion ac yn y Canolfannau i Hwyrddyfodiaid.

1.1.4 Ail nod yr astudiaeth oedd edrych ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac yn y Gymraeg sy'n cael ei ddarparu yn lleol gan yr Athrawon Bro yn y 22 Awdurdod Lleol (neu gan Cynnal ac ESIS), ac mewn partneriaeth gyda CBAC[8] a Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)[9], a chynnig argymhellion ar sut i sefydlu mwy o gydweithredu a chost effeithiolrwydd wrth ddarparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn y dyfodol.

1.1.5 Roedd y nod yma yn esgor ar dri amcan, sef:

- o arolygu'r rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys yr hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg a gynigir gan yr Athrawon Bro yn y 22 Awdurdod Lleol (neu gan Cynnal ac ESIS) ac mewn partneriaeth gyda CBAC a CYDAG, a darparu argymhellion ar sut y gall Awdurdodau Lleol wneud defnydd mwy cost-effeithiol o hyfforddiant wrth gynnig hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg i'r dyfodol;
- o adnabod yr adnoddau hyfforddi a gynhyrchwyd gan yr Awdurdodau Lleol (neu gan Cynnal ac ESIS) i gefnogi hyfforddiant cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys hyfforddiant ar ddatblygiad cwricwlwm a materion rheolaethol), a gwneud argymhellion ar sut y gall partneriaid weithio gyda'i gilydd er mwyn cynhyrchu a rhannu adnoddau hyfforddi er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, a sicrhau eu bod ar gael ar draws Cymru;
- o adnabod yr adnoddau addysgu a dysgu a gynhyrchwyd gan yr Athrawon Bro yn yr Awdurdodau Lleol (neu gan Cynnal ac ESIS) i

[8] Corff dyfarnu sydd hefyd yn darparu deunyddiau addysgol yw CBAC
[9] Nod CYDAG yw hyrwyddo a datblygu pob agwedd ar addysg ddwyieithog

gefnogi hyfforddiant iaith Gymraeg, a gwneud argymhellion ar sut y gall partneriaid weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, a sicrhau eu bod ar gael ar draws Cymru.

## 1.2 METHODOLEG

1.2.1 Roedd yr ymchwil yn cynnwys tair prif elfen:

- o ymchwil pen-desg;
- o gwaith maes gyda rhanddeiliaid 'lleol';
- o gwaith maes gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol'.

1.2.2 Roedd yr elfen o ymchwil ben-desg yr astudiaeth yn cynnwys adolygu'r dogfennau a restrir yn Atodiad E, yn ogystal â dogfennau yn ymwneud â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Ar sail yr arolwg, datblygwyd fframwaith o gwestiynau a ddefnyddiwyd i greu canllawiau holi i lywio'r trafodaethau gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol' a 'lleol'.

1.2.3 Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol' gyda throsolwg Cymru-eang. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, CBAC, CYDAG ac Estyn[10].

1.2.4 Roedd y gwaith maes a chyfarfod â rhanddeiliaid 'lleol' yn golygu ymweld â phob un o'r 22 o ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Yn 16 o'r ardaloedd yma, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda'r Cyfarwyddwr Addysg (neu aelod cyfatebol o staff), aelodau o Dimau Gwella Ysgolion (gan fwyaf, Ymgynghorwyr y Gymraeg, oedd mewn amryw o achosion yn gyfrifol am reoli timau Athrawon Bro), Athrawon Bro, a lle maent yn bodoli, staff yn gweithio mewn Canolfannau i Hwyrddyfodiaid. Hefyd casglwyd data ynglŷn â manylion cyflogaeth y gweithlu Athrawon Bro ym mhob ardal.

[10] Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

1.2.5 Mewn chwe ardal Awdurdod Lleol (Gwynedd, Môn, Wrecsam, Penfro, Caerffili a Rhondda Cynon Tâf), ymwelwyd yn ychwanegol â sampl o ysgolion i gynnal cyfweliadau gyda phenaethiaid, athrawon a disgyblion oherwydd bod yr ardaloedd hyn wedi mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithredu.

1.2.6 Paratowyd papurau mewnol yn amlinellu'r sefyllfa ym mhob ardal a defnyddiwyd y rhain yn ogystal â data a dderbyniwyd ynglŷn â manylion cyflogaeth y gweithlu Athrawon Bro i greu darlun o'r sefyllfa gyfredol Cymru eang.

1.2.7 Hoffem ddiolch i'r rhanddeiliaid fu mor barod eu cyfraniad i'r ymchwil hwn.

## 1.3 FFURF YR ADRODDIAD

1.3.1 Yn y bennod nesaf, rydym yn cyflwyno cyd-destun yr astudiaeth hon, sydd wedi ei seilio ar ein hadolygiad o'r dogfennau a restrir yn Atodiad E a thrafodaethau gyda'r rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol allweddol.

1.3.2 Yn y drydedd bennod, cyflwynwn yr hyn a ganfuwyd yn ystod ein gwaith maes gyda rhanddeiliaid lleol, a thrafodwn ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn y bedwaredd bennod.

# 2 Y CYD-DESTUN AR GYFER YR ASTUDIAETH

## 2.1 CEFNDIR GWASANAETH YR ATHRAWON BRO

2.1.1 Sefydlwyd y tîm cyntaf o Athrawon Bro ddiwedd y 1970au fel dull i gefnogi addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion, a lledaenwyd y cysyniad ar draws Cymru ddechrau'r 1980au. Esblygodd y ffordd y mae'r Athrawon Bro yn gweithredu dros gyfnod, ac erbyn y 1990au, roedd gwahaniaethau sylweddol yn yr ymagweddau a gymerwyd, gan adlewyrchu nodweddion ieithyddol gwahanol ardaloedd o Gymru, proffiliau sgiliau iaith Gymraeg yr athrawon a blaenoriaethau gwahanol Awdurdodau Lleol.

2.1.2 Dros y blynyddoedd, prif swyddogaeth Athrawon Bro fu cefnogi ysgolion cynradd wrth iddynt addysgu'r Gymraeg fel ail iaith er, fel y trafodir ym Mhennod 4, bu eithriadau i'r rheol hon. Amlinellwyd prif swyddogaethau yr Athrawon Bro mewn arolwg o'u gwaith gan Estyn yn 2003. Roeddent yn cynnwys:

- cefnogi ysgolion drwy ddatblygu polisïau a chynlluniau gwaith, yn cynnwys polisïau ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm;
- cynnig cefnogaeth ymarferol i athrawon yn eu hystafell ddosbarth i'w helpu i addysgu Cymraeg i'w disgyblion ac i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysgu pynciau eraill. Dywedodd yr adroddiad y medrai hyn gynnwys ymweld ag ysgol mewn rôl ymgynghorol yn ogystal ag addysgu wrth ochr yr athro yn yr ystafell ddosbarth er mwyn modelu arfer dda;
- gweithredu fel athrawon peripatetig ar gyfer y Gymraeg lle nad oes gan staff yr ysgol y gallu i addysgu'r pwnc. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd Athrawon Bro yn ceisio annog athrawon dosbarth i gymryd rhan a pharhau â'r gwaith rhwng ymweliadau;
- gweithio mewn canolfannau iaith i roi'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar blant sy'n mudo i ardaloedd ysgolion Cymraeg i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion lleol;

- cefnogi disgyblion Cyfnod Allweddol 2 o ysgolion neu ffrydiau Cymraeg i wella safon eu Cymraeg ac i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n medru symud ymlaen i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3;
- mewn rhai achosion, helpu i bontio'r bwlch rhwng blynyddoedd 6 a 7 i hyrwyddo dilyniant mewn sgiliau iaith Gymraeg;
- trefnu cyrsiau preswyl ar gyfer disgyblion er mwyn iddynt ddod i gyswllt â'r iaith dros gyfnod mewn amgylchedd anffurfiol,
- trefnu neu gyfrannu at gyrsiau hyfforddiant ar fethodoleg;
- darparu gwahanol ddeunyddiau addysgu a dysgu; a
- monitro a gwerthuso cynnydd disgyblion yn y Gymraeg fel pwnc.

2.1.3 Roedd y swyddogaethau hyn i raddau helaeth yn adleisio'r hyn a ddynodwyd yn adolygiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg o Wasanaeth yr Athrawon Bro yn 1996, er bod yr astudiaeth gynharach wedi rhoi blas cryfach o'r amrywiaeth a fodolai ym 'mhatrymau darparu gwasanaeth' rhwng gwahanol Awdurdodau Lleol.

2.1.4 Dychwelir at ganfyddiadau'r ddau adroddiad yma ymhellach ymlaen yn yr adroddiad, ochr yn ochr â thrafodaeth ynglŷn â'r hyn ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwaith maes. Cyn gwneud hynny, mae'n werth ystyried datblygiadau ym mholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi dylanwadu ar waith Athrawon Bro.

## 2.2 CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL

2.2.1 Ers cyhoeddi Cynllun i Gymru (2001), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod 'yn ymroddedig i'r achos o adfer ac adfywio'r iaith Gymraeg'. Yn *Iaith Pawb*: Cynllun Gweithredu dros Gymru Ddwyieithog (2003), roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynegi ei huchelgais i weld cynnydd yn y nifer o bobl sy'n medru siarad Cymraeg, a gwnaeth ymrwymiadau penodol i ganolbwyntio ar, ymhlith pethau eraill, 'annog unigolion i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg' ac 'ymestyn mynediad at addysg trwy gyfrwng y Gymraeg'.

2.2.2 Roedd *Iaith Pawb* (2003) yn cydnabod bod cynnydd sylweddol eisoes wedi digwydd, ac roedd cyflwyno'r iaith Gymraeg fel pwnc gorfodol (un ai fel iaith gyntaf neu ail iaith) yn yr holl ysgolion a gynhelir yn gyhoeddus yng Nghymru a'r twf yn argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg wedi cyfrannu'n fawr at hynny. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2010, yn ei gwneud yn glir bod angen gwneud llawer mwy os yw'r system addysg am gynhyrchu pobl sy'n medru 'defnyddio'r iaith yn eu bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle'.

2.2.3 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) yn adeiladu ar yr ymrwymiadau a wnaed yn *Iaith Pawb* trwy nodi bwriadau Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt[11]:

- o cynllunio'r ddarpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws bob cyfnod (Nod 1 a 2);
- o annog datblygiad a chynnydd ieithyddol (Nod 3);
- o datblygu'r gweithlu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg (Nod 4);
- o peirianwaith cefnogi, gan gynnwys datblygu adnoddau dysgu ac addysgu (Nod 5); ac
- o atgyfnerthu'r modd y mae'r iaith yn cael ei chaffael (Nod 6).

2.2.4 Canolbwyntia'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) ar addysgu Cymraeg (iaith gyntaf) ac ar ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i ddarparu'r cwricwlwm ehangach ar y sail mai 'Addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin dinasyddion dwyieithog y dyfodol' (tud. 7). Mae'n pwysleisio pwysigrwydd defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg mewn addysg er mwyn sicrhau 'momentwm y broses ddysgu' o'r blynyddoedd cynnar ymlaen, fel bod dysgwyr yn 'sicrhau rhuglder yn y ddwy iaith' (tud. 9). Wrth gydnabod na 'fydd pob rhiant am i'w blant gael addysg cyfrwng Cymraeg' (tud. 9) gwna'r Strategaeth hi'n amlwg y dymuna Llywodraeth

[11] Nodir nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn llawn yn Atodiad A

Cynulliad Cymru sicrhau bod 'pob dysgwr a myfyriwr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith sy'n cyfoethogi eu profiad o fyw mewn gwlad ddwyieithog' (tud.9).

2.2.5 Amlyga'r Strategaeth fod

> 'angen cyflwyno newidiadau yn raddol ond yn bwrpasol i godi safonau mewn addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith. Mae'n rhaid i sgiliau iaith yn y Gymraeg gael eu dysgu'n fwy effeithiol, gam wrth gam drwy addysg statudol, er mwyn i ni allu codi lefelau cyflawniad a sgiliau pob dysgwr' (tud.9) .

2.2.6 Dylid ystyried yr awydd yma i weld cynnydd, yng nghyd-destun y pryderon am lefelau cyflawni yn y Gymraeg fel ail iaith a fynegwyd yn y Strategaeth yn ogystal ag yn Adroddiad Blynyddol 2007/08 Estyn (2009). Meddai'r adroddiad,

> 'mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg, mae llawer o wendidau yn y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Yn benodol, does dim digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio Cymraeg mewn pynciau eraill, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Y diffyg mwyaf cyffredin mewn llawer o ysgolion cynradd yw nad yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y Gymraeg wrth iddynt symud o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2. Mewn ysgolion uwchradd, mae perfformiad Cymraeg fel ail iaith yn dal mor wan ag yn y blynyddoedd blaenorol, ac mae'n waeth nawr nag yr oedd yn y gorffennol. Fe wnaethon ni adrodd y llynedd bod rhai diffygion pwysig gan bron i hanner y gwaith. Eleni, mae diffygion pwysig mewn dwy ran o dair o waith disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r addysgu yn Gymraeg fel ail iaith yn waeth o lawer nag mewn pynciau eraill' (tud. 11).

Cyfeirir yn Adroddiad Blynyddol 2008/09 Estyn (2010) at 'rywfaint o welliant mewn Cymraeg ail iaith, er bod safonau yn y maes hwnnw'n amlwg yn wael o gymharu â meysydd eraill' (Rhagair iii).

2.2.7 Tra bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg (2010) yn cydnabod yr angen i ysgolion 'bennu nodau ar gyfer gwella cyflawniad yn y Gymraeg [ail iaith]', nid yw ynddi ei hun yn cynnwys mesuryddion canlyniadau i gyd-fynd â'r uchelgais honno e.e. y gyfran o ddisgyblion sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Dadleuodd rhai cyfranwyr bod hwn yn gyfle a gollwyd i atgyfnerthu uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru, er y gellid dadlau hefyd bod ffocws y Strategaeth ar gynyddu'r gyfran o ddisgyblion a aseswyd yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar gyfnodau amrywiol yn rhoi neges cryfach. Yn wir, yn gysylltiedig â hyn, cyfeiria'r Strategaeth at fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i 'ystyried yr opsiynau ar gyfer datblygu ac asesu sgiliau yn y Gymraeg ar hyd continwwm iaith ar draws pob cyfnod addysg' (tud. 16).

2.2.8 Mae pob un o nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg (2010) wedi eu seilio ar gyfres o 'Amcanion Strategol' sydd, yn eu tro, yn deillio o nifer o gamau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a nifer o randdeiliaid eraill yn ymgymryd â hwy. Yn berthnasol iawn i'r astudiaeth hon nodir:

- o bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'sefydlu uned gymorth genedlaethol i gynorthwyo consortia ac Awdurdodau Lleol ... [a fydd yn] cydlynu hyfforddiant a lledaenu arferion da', ac i Awdurdodau Lleol 'wella gweithio traws-ffiniol drwy gonsortia...gan ddefnyddio'r uned gymorth arbenigol genedlaethol' (Cam a ddynodwyd i ymdrin ag Amcan AS1.2, tud28);
- o dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu 'isadeiledd cydlynol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol' ar gyfer darparu hyfforddiant mewn swydd ar gyfer addysgu cyfrwng Cymraeg ac yn yr iaith Gymraeg, yng nghyd-destun 'adolygiad o CPD' [Datblygu Proffesiynol Parhaus] ehangach (Cam a ddynodwyd i ymdrin ag Amcan AS4.3, tud40);
- o dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru 'wella sgiliau ieithyddol ymarferwyr drwy adnabod blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant, gan

gyfateb â phrosesau cynllunio ar y lefel leol a rhanbarthol' (Cam a ddynodwyd i ymdrin ag Amcan AS4.3, tud40);

- dylai Llywodraeth y Cynulliad 'wella darparu hyfforddiant mewn swydd a chymorth i ymarferwyr ysgol o fewn Awdurdodau Lleol ac ar draws consortia drwy adeiladu ar waith yr athrawon bro' (Cam a ddynodwyd i ymdrin ag Amcan AS4.3, tud40);
- dylai ysgolion ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd i 'gynyddu a gwella'r cynnwys cyfrwng Cymraeg a dysgu'r Gymraeg' yn y cwricwlwm mewn ysgolion dwyieithog (Cam a ddynodwyd i ymdrin ag Amcan AS3.3, tud35).
- dylai ysgolion fod yn 'pennu nodau ar gyfer gwella cyflawniad yn y Gymraeg [ail iaith] ar gyfer pob oed, gan sicrhau amser cwricwlwm digonol, adnoddau a hyfforddiant digonol i athrawon' (Cam a ddynodwyd i ymdrin ag Amcan AS3.4, tud36); a
- dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru 'adnabod arferion gorau, yn arbennig yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, ac ystyried opsiynau ar gyfer rhaglenni peilot i wella safonau yn y Gymraeg fel ail iaith' (Cam a ddynodwyd i ymdrin ag Amcan AS3.4, tud36).

2.2.9 Fe wnaed yr ymrwymiadau a nodir yn *Iaith Pawb* a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun datblygiadau sylweddol eraill o ran polisi addysg yng Nghymru.

2.2.10 Roedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen newydd o 2008 yn rhoi gofynion penodol ar 'ysgolion a lleoliadau lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu' i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant yn gynyddol. Roedd Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant i rai 3 – 7 oed yng Nghymru (2008)[12] yn nodi'r mathau o brofiadau dysgu y dylai rhai 3 i 7 mlwydd oed gael mynediad atynt er mwyn datblygu eu gallu ar lafar, darllen ac ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r profiadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad, cymryd rhan mewn deialog, gwrando ar storïau Cymraeg ac ysgrifennu 'ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. O 2012 bydd yn ofynnol i ysgolion asesu

[12] A oedd yn cynorthwyo i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen

cyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

2.2.11 Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg diwygiedig yn cael ei gyflwyno dros gyfnod fel a ganlyn:

Cymraeg

- o 1 Awst 2008 ar gyfer Blynyddoedd 3, 4 a 5 a Blynyddoedd 7 ac 8
- o 1 Awst 2009 ar gyfer Blynyddoedd 6 a 9
- o 1 Awst 2010 ar gyfer Blwyddyn 10 yng Nghyfnod Allweddol 4
- o 1 Awst 2011 ar gyfer Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4

Cymraeg Ail Iaith

- o 1 Awst 2008 ar gyfer Blynyddoedd 3, 4 a 5 a Blynyddoedd 7 ac 8
- o 1 Awst 2009 ar gyfer Blynyddoedd 6, 9 a 10 yng Nghyfnod Allweddol 4
- o 1 Awst 2010 ar gyfer Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4.

2.2.12 Disgwylir i ddisgyblion 'adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd' yn ystod Cyfnodau Allweddol olynol ac o 2010, bydd cyrhaeddiad pob disgybl yn y Gymraeg, boed fel iaith gyntaf neu ail iaith, yn cael ei asesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, a thrwy hynny ychwanegu pwyslais at bwysigrwydd yr iaith fel pwnc craidd. Roedd nifer o randdeiliaid yn meddwl bod hynny eisoes yn helpu 'i godi statws yr iaith Gymraeg' ac roedd disgwyl mawr y byddai hyn yn arwain at weld ysgolion yn cynyddu eu hymdrechion o ran dysgu Cymraeg fel ail iaith a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer cyflwyno elfennau eraill o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn bryderus nad oes gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol y gallu i ymateb yn gyflym ac effeithiol i'r her hon a bod y newid polisi yn debygol o roi pwysau gormodol ar dimau'r Athrawon Bro oedd dan bwysau yn barod (gweler adran 4.3). Roedd rhai hefyd yn poeni y byddai anallu ysgolion i ymateb heb gymorth ychwanegol yn tanseilio gallu'r broses asesu i yrru uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella safonau addysgu Cymraeg fel ail iaith.

2.2.13 Mae ‘Y ddarpariaeth Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig’ yn agwedd benodol ar y dangosydd ‘Profiadau Dysgu’ yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn sy’n dod i rym ym Medi 2010. Roedd disgwyl eang ymhlith rhanddeiliaid y byddai hyn yn help i godi proffil addysgu’r iaith Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gall rhai ysgolion yn awr fod heb y gallu i ymateb yn addas i’r symudiad hwn a rhagwelwyd y gallai hyn arwain at bwysau ar Awdurdodau Lleol a thimau’r Athrawon Bro i ddarparu rhagor o gefnogaeth i’r ysgolion hynny, yn arbennig yn y cyfnod byr i ganolig.

2.2.14 Mae’r holl ddatblygiadau hyn yn amlygu angen am sgiliau iaith Gymraeg cynyddol uwch ymhlith yr ymarferwyr sy’n gweithio mewn ysgolion, ac ysgolion sydd ddim yn rhai cyfrwng Cymraeg yn fwy penodol, o’r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4 a thu hwnt. Maent hefyd yn galw am ddealltwriaeth gadarn ar ran ymarferwyr o fethodoleg addysgu amrywiaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg .

2.2.15 Nod cyflwyno’r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (2008) yw gwella’r canlyniadau i ddysgwyr trwy ddwyn at ei gilydd

> ‘y rhaglenni presennol a rhaglenni sydd ar y gweill, fel bo’r gweithgareddau’n cael eu cysoni i hyrwyddo nod cyffredin ac i sicrhau eu bod wedi’u halinio at effeithiolrwydd ysgolion’ (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, tud. 5).

Yn hanfodol, mae’r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (2008) yn gofyn am waith

> ‘datblygu ar lefel ysgolion, Awdurdodau Lleol a chenedlaethol er mwyn meithrin gallu i gydweithio a chynnwys arweinyddion ac ymarferwyr ar bob lefel mewn trafodaeth a dysgu proffesiynol ystyrlon’ (tud.10).

Mae dogfen Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) yn cydnabod bod lefel sylweddol o gydweithredu eisoes yn digwydd, gan ddatgan bod angen i fwy o

ysgolion ‘weithio mewn grwpiau clwstwr’, gan gynnwys clystyrau sy’n croesi ffiniau Awdurdodau Lleol, er mwyn cynyddu gallu.

2.2.16 Sefydlwyd y Gronfa Ysgolion Gwell yn 2004 fel olynydd i’r rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant fu’n rhedeg am gyfnod maith. Mae’n cynnig peirianwaith ar gyfer cefnogi gweithredu amryfal bolisïau ar gyfer gwella ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys ‘Iaith Pawb mewn Ysgolion’[13] ac yn fwy diweddar, ‘Gweithredu’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg’[14]. Mae’r Gronfa Ysgolion Gwell, ynghyd â chyfraniadau Awdurdodau Lleol, wedi darparu rhyw £3.7 miliwn[15] ym mhob un o’r pum mlynedd diwethaf i gefnogi hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau gwella ysgolion.

2.2.17 Yn gyffredinol, yr arfer oedd rhoi blaenoriaeth i themâu arbennig ar gyfer cefnogaeth Grantiau Ysgolion Gwell am gyfnodau o hyd at dair blynedd ac mae’r ffaith bod gweithgareddau yn gysylltiedig â’r Gymraeg wedi cael eu cefnogi am gyfnod hwy yn dyst i ymrwymiad y Gweinidogion i yrru *Iaith Pawb* a’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn awr yn eu blaenau. Mae’n drawiadol hefyd, er bod cwtogi sylweddol yng ngwerth cyffredinol Grant Ysgolion Gwell yn 2010/11, y gofynnwyd i Awdurdodau Lleol ‘neilltuo’ o leiaf 15 y cant o’u dyraniad i gefnogi’r flaenoriaeth ‘Gweithredu’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg’, sy’n golygu y bydd lefel y buddsoddiad y byddant yn ei wneud yn parhau ar lefelau tebyg i’r flaenoriaeth ‘Iaith Pawb mewn Ysgolion’ mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ei hanfod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio diogelu’r buddsoddiad a wnaed yn ‘Gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg’.

[13] Iaith Pawb mewn Ysgolion oedd y pumed o chwe blaenoriaeth i’r Gronfa Ysgolion Gwell hyd at 2010

[14] Gweithredu’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw’r ail o dair blaenoriaeth i’r Gronfa Ysgolion Gwell ers 2010


[15] Rhoddir tabl yn nodi’r symiau a ddyranwyd i bob ardal Awdurdod Lleol ar gyfer 2009/10 a 2010/11yn Atodiad C

# 3. GWEITHLU ATHRAWON BRO HEDDIW

## 3.1 MAINT A PHROFFIL Y GWEITHLU

3.1.1 Caiff cyfanswm o 138 o unigolion eu cyflogi fel Athrawon Bro ar draws Cymru, sydd yn gyfartal â 126 o swyddi cyfwerth â llawn amser. Fel mae Ffigur 3.1 yn dangos isod, mae maint timau'r Athrawon Bro o ran nifer yn amrywio'n eithaf sylweddol mewn gwahanol rannau o Gymru.

Ffigur 3.1: Nifer o Athrawon Bro/Staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid





Ffynhonnell:
Data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol[16] [17]

3.1.2 Dengys Ffigur 3.2 isod fod amrywiaeth sylweddol hefyd yn nifer yr ysgolion a wasanaethir gan Athrawon Bro unigol. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn polisïau addysg Gymraeg Awdurdodau Lleol a natur y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, teimlai cyfranwyr fod timau'r Athrawon Bro yn ddigon mawr i gyflawni yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud. Serch hynny, nid oedd hyn o reidrwydd cyfystyr â'r canfyddiadau ynglŷn â hyd

[16] Awdurdodau Lleol yr hen Went yw Blaenau Gwent, Mynwy, Cas Newydd a Thorfaen
[17] Yr Awdurdodau Lleol a'u gwasanaethir gan ESIS yw Pen y Bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf

a lled yr angen. Yn ddiamau, roedd teimlad bod yr anghenion mewn llawer o ardaloedd yn llawer mwy nag y medrai timau Athrawon Bro, fel y maent ar hyn o bryd, obeithio eu cyflawni.


Ffigur 3.2: Nifer Ysgolion Cynradd fesul Athro Bro/Staff o Ganolfannau Hwyrddyfodiaid (Cyfwerth â Llawn Amser)




Ffynhonnell:
Data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol

3.1.3 Mae dwy ran o dair (62 y cant) o'r Athrawon Bro y derbyniom ddata yn eu cylch yn gweithio'n llawn amser. Gweithia 19 y cant arall rhwng 21 a 30 awr yr wythnos, 11 y cant ohonynt rhwng 11 ac 20 awr yr wythnos, tra honnwyd fod 9 y cant o Athrawon Bro yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos, sy'n adlewyrchu'r gwaith ychwanegol a wnaed gan rai yn eu hamser eu hunain.

Ffigur 3.3:  Athrawon Bro, yn ôl yr Oriau y Gweithiant bob Wythnos




Ffynhonnell:
Data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol

3.1.4 Ar y cyfan, dywedodd rhanddeiliaid lleol y bu maint timau'r Athrawon Bro yn weddol sefydlog yn y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf, er y bu tueddiad mewn rhai ardaloedd i beidio â phenodi neb yn lle Athrawon Bro sy'n ymddeol neu sy'n symud ymlaen. Y brif eithriad i hyn oedd Sir Benfro, lle gostyngwyd maint y tîm Athrawon Bro gan dros 50 y cant yn dilyn newid amlwg ym mholisi'r Awdurdod Lleol tuag at addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ne'r sir (gweler isod).

3.1.5 Bu trosiant staff o fewn timau Athrawon Bro yn isel ar y cyfan a bu 51 y cant o Athrawon Bro yn eu swyddi am fwy na deng mlynedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dweud na chafodd rhai Awdurdodau Lleol anawsterau wrth recriwtio a chadw Athrawon Bro. Dywedodd rhai Awdurdodau Lleol iddynt gael problemau wrth benodi Athrawon Bro medrus gyda'r sgiliau cymwys am nifer o resymau, yn cynnwys:

- amharodrwydd i weithio mewn amrediad o ysgolion, yn cynnwys y rhai mwy anodd;
- y teithio sy'n gysylltiedig â'r gwaith;
- amharodrwydd i hyfforddi oedolion yn ogystal ag addysgu plant;
- amharodrwydd i ymgymryd â rôl ymgynghorol;
- nid yw'r cyflogau a gynigir i Athrawon Bro mewn rhai ardaloedd yn cymharu gyda'r hyn y gall athrawon da eu hennill mewn

sefyllfaoedd ysgol – ‘mae unrhyw athro gwerth ei halen yn cael pwyntiau cyfrifoldeb a does dim ffordd y medrwn ni gystadlu’;

- ansicrwydd am ariannu yn y dyfodol, oherwydd y system cyllid grant blynyddol; a
- diffyg llwybr gyrfa – ‘dydy hi ddim yn swydd ar gyfer athrawon uchelgeisiol’.

3.1.6 Yn wir, atseinia’r anawsterau hyn ffactorau a adwaenwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel rhwystrau wrth recriwtio a chadw Athrawon Bro o ganlyniad i’w arolwg yn 1996, Gwasanaeth Athrawon Bro: Adroddiad ar y gwasanaethau sy’n cefnogi dysgu Cymraeg fel rhan o’r Cwricwlwm Cenedlaethol


3.1.7 Mae rhai Awdurdodau Lleol yn cynnig ‘secondiadau’ i swyddi Athrawon Bro er mwyn lliniaru problemau recriwtio.

3.1.8 Er yr ystyrid yn gyffredinol fod trosiant staff isel ymysg timau Athrawon Bro yn beth da, yn yr ystyr ei fod yn galluogi cadw arbenigedd, ystyriwyd gan swyddogion rhai Awdurdodau Lleol ei fod hefyd yn rhwystr i hyblygrwydd a newid, nid yn lleiaf oherwydd ymagwedd ‘famol ... anheriol‘ rhai Athrawon Bro. Mewn un sir, er enghraifft, bu’n anodd cyflwyno model gweithio newydd oherwydd bod Athrawon Bro yn amharod i newid yr hyn a wnânt, gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol hwnnw yn dweud mai’r ‘her fawr oedd newid agwedd y tîm o ddim ond cyflwyno gwersi i fodelu gwersi’. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, y canmolwyd timau’r Athrawon Bro yn y rhan fwyaf o ardaloedd am y modd y maent yn ymateb i newid a’u parodrwydd i fynd gam ymhellach na’r disgwyl.

3.1.9 Menywod yw mwyafrif llethol yr Athrawon Bro (95 y cant o’i gymharu â 75 y cant o athrawon cynradd ac uwchradd ar draws Cymru (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, 2010)) ac, fel mae ffigur 3.4 yn dangos, mae proffil oed y gweithlu Athrawon Bro dipyn yn hŷn na phroffil oed athrawon cynradd ac uwchradd yn gyffredinol. Yn ôl un cyfrannwr,

'mae hyn yn adlewyrchu pryd y sefydlwyd y gwasanaeth'. Mewn rhai ardaloedd, mae proffil oedran Athrawon Bro yn faes pryder, oherwydd y gallai ymddeoliadau sydd ar fin digwydd arwain at golli arbenigedd, ac o bosib, grebachu'r gwasanaeth. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi rhagweld hyn ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau nad yw gwybodaeth yn cael ei golli wrth i Athrawon Bro hŷn symud ymlaen.

Ffigur 3.4: Canrannau Athrawon Bro yn ôl Grŵp Oedran




Ffynhonnell:
Data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol a Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Crynodeb Ystadegau Blynyddol, Mawrth 2010


3.1.10 Yn ôl data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol, mae gan bron i hanner yr Athrawon Bro raddau cyntaf mewn un ai Cymraeg neu Addysg, ac mae gan ychydig dros chwarter gymwysterau eraill, yn cynnwys graddau Baglor mewn pynciau amrywiol e.e. Hanes a Cherddoriaeth ac, yn fwyaf cyffredin, Dystysgrifau Addysg, sydd i raddau yn adlewyrchu oedran y gweithlu Athrawon Bro. Hynny yw, daethant yn athrawon cyn bod cael gradd yn hanfodol. Mae gan tua thraean yr Athrawon Bro Dystysgrif Ôl Raddedig mewn Addysg neu Radd Meistr mewn Addysg.

3.1.11 Caiff tua 79 y cant o Athrawon Bro eu cyflogi ar Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (sy'n golygu fod ganddynt gontract i weithio yn ystod

amser tymor yn unig – 195 diwrnod y flwyddyn), er nodwyd bod nifer yn gweithio'n wirfoddol yn ystod gwyliau'r ysgol. Caiff 18 y cant arall o Athrawon Bro eu cyflogi ar amodau Soulbury[18] (sy'n golygu eu bod yn gweithio drwy'r flwyddyn ac yn gymwys am o leiaf 20 niwrnod o wyliau y flwyddyn ar dâl, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus). Cyflogir yr ychydig Athrawon Bro eraill ar gytundebau dros dro neu sesiynol.

3.1.12 Dengys Ffigur 3.5 isod fod mwyafrif (73 y cant) yr Athrawon Bro yn ennill cyflog cyfwerth llawn amser o rhwng £35,000 a £40,000. Mae'r Athrawon Bro sydd ar gyflogau is un ai yn weddol newydd i'r proffesiwn, neu nid athrawon mohonynt mewn gwirionedd ond cynorthwywyr addysgu. Yn ychwanegol at y cyflogau hyn, mae Athrawon Bro mewn rhai Awdurdodau Lleol yn derbyn un ai lwfans Cyfrifoldeb Addysgu ac Arweinyddiaeth neu lwfans Recriwtio a Chadw.

Ffigur 3.5: Nifer Athrawon Bro yn Ennill Cyflogau o fewn Lled Band Neilltuol[19]




Ffynhonnell:
Data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol

[18] Fforwm cydfargeinio cyflogau ac amodau cyflogaeth staff cynghorol Awdurdodau Lleol yw Pwyllgor Soulbury
[19] Heb gynnwys Ceredigion a Chonwy, gan na chafwyd data ganddynt ar y mater hwn

3.1.13 Mae costau ychwanegol cyflogi Athrawon Bro (e.e. cyfraniadau Yswiriant Gwladol a delir gan gyflogwyr a chostau pensiwn) o ryw 20 y cant i 25 y cant ar ben y cyflogau ar gyfartaledd.

## 3.2 EU LLE O FEWN STRWYTHURAU AWDURDODAU LLEOL

3.2.1 Mae timau Athrawon Bro yn gyffredinol yn rhan o'r Timau Gwella Ysgolion, yn aml dan fantell swyddog gwella ysgolion sydd â chyfrifoldeb penodol am yr iaith Gymraeg.

3.2.2 Mae rhai Awdurdodau Lleol yn cydweithio i gyflenwi gwasanaethau gwella ysgolion a/neu gymorth iaith Gymraeg, a rhoddwyd trefniadau neilltuol ar waith ar gyfer rheoli timau Athrawon Bro. Er enghraifft:

- o er bod cydgysylltwyr iaith a staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid yng Ngwynedd a Môn yn cael eu cyflogi gan y naill neu'r llall o'r Awdurdodau Lleol, caiff eu gweithgareddau eu cynllunio a'u cydlynu'n ganolog gan Cynnal, is-gorff a sefydlwyd gan y ddau Awdurdod i gyflenwi eu gwasanaethau cymorth ysgolion;
- o caiff Athrawon Bro yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot hefyd eu cyflogi gan y ddau Awdurdod Lleol, ond caiff eu gwaith ei gydlynu gan reolwr Canolfan Gymraeg San Helen, Abertawe. Caiff gwaith Athrawon Bro Abertawe ei gyfarwyddo a'i oruchwylio gan Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe (PAGA), sy'n cynnwys penaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a phenaethiaid ysgolion a phenaethiaid adrannau Cymraeg ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Cadeirir PAGA gan Bennaeth Effeithlonrwydd Ysgolion Abertawe, ac mae gan staff Gwella Ysgolion o'r Awdurdod, ynghyd â rheolwr Canolfan Gymraeg San Helen rôl gynghori;
- o caiff Athrawon Bro sy'n gwasanaethu Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Tâf eu cyflogi a'u rheoli gan ESIS, sefydliad y mae'r pedwar Awdurdod Lleol yn 'berchen' arno ac sydd â chontract i ddarparu gwasanaethau cymorth ysgolion iddynt; a

- o mae Cyngor Torfaen yn rhoi cartref i Uwch Ymgynghorydd Iaith Gymraeg ac Athrawon Bro sydd, ar sail Cytundebau Lefel Gwasanaeth, yn gwasanaethu pedair sir - Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

3.2.3 Mae trefniadau llai ffurfiol yn bodoli i hwyluso cydweithrediad rhwng Athrawon Bro yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint, sy'n cydweithio i ddatblygu adnoddau addysgu a dysgu a chyflwyno cyrsiau i ymarferwyr. Dros y blynyddoedd, cafodd y cydweithio hwn ei hybu gan Swyddog Gwella Ysgolion, a gyflogwyd gan Gyngor Sir y Fflint[20], ond yn y cyfnod diweddar mae wedi dibynnu ar Gydlynydd y Tîm Athrawon Bro ym mhob Awdurdod i gymryd yr awenau wrth gydweithio.

3.2.4 Mewn llawer o ardaloedd, dywedwyd bod timau Athrawon Bro wedi integreiddio'n agosach gyda Thimau Gwella Ysgolion. Soniodd nifer o gyfranwyr am newid yn rôl yr Athrawon Bro dros y blynyddoedd, o weithredu fel athrawon Cymraeg peripatetig i fod yn athrawon ymgynghorol gydag arbenigedd mewn addysgu Cymraeg a dwyieithog. Mewn rhai ardaleodd, ni ddefnyddir y teitl 'Athrawon Bro' erbyn hyn, gydag aelodau'r tîm yn cael eu galw yn Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg yn lle hynny. Fodd bynnag, amrywia faint o newid fu yn rôl yr Athrawon Bro o un sir i'r llall, gyda diffyg gallu Cymraeg o fewn ysgolion yn llesteirio'r dymuniad i esblygu tuag at rôl fwy ymgynghorol a llai ymarferol mewn rhai ardaloedd.

***Astudiaeth achos: Trefniadau Athrawon Bro ESIS***

Mae ESIS yn drefniant cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol Caerffili, Merthyr Tudful Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Tâf [21]. Mae'n darparu Gwasanaethau Gwella Ysgolion ar draws y pedwar Awdurdod, yn cynnwys gwasanaethau i gefnogi addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac

[20] Mae'n ddrwg gennym ddweud y bu farw'r unigolyn dan sylw yn ddiweddar
[21] Dyma'r Awdurdodau Lleol sydd yn awr yn gwasanaethu cyn ardal Cyngor Morgannwg Ganol

addysgu cyfrwng Cymraeg.

Mae'r corff yn atebol i aelodau etholedig y pedwar Awdurdod Lleol, ond caiff ei gyfarwyddo gan gydbwyllgor sy'n cynnwys uwch aelodau a phrif swyddogion o bob awdurdod sy'n bartner. Mae Bwrdd Rheoli, sy'n cynnnwys cynrychiolwyr o benaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ynghyd â phenaethiaid gwasanaethau Addysg a Phlant y pedwar Awdurdod Lleol, yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ac am atebolrwydd. Mae'r Bwrdd Rheoli yn rhoi persbectif proffesiynol ehangach a throsolwg ar waith ESIS ac yn cynghori'r cydbwyllgor.

Mae Athrawon Bro yn rhan gyfannol o dîm ymgynghorwyr ESIS, sy'n cefnogi holl feysydd y cwricwlwm ar draws pob cam o addysg ysgol[22]. Dadleuwyd bod hyn yn ychwanegu at werth y tîm Athrawon Bro gan ei fod yn galluogi cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol, yn galluogi gweithio ategol (o fewn ESIS a hefyd rhwng ESIS, Awdurdodau Lleol ac ysgolion unigol). Mae'r raddfa y cafodd y tîm Athrawon Bro ei integreiddio o fewn swyddogaethau ehangach gwella ysgolion hefyd yn ei gwneud yn bosibl cael ymagwedd mwy strategol at ddefnyddio'r gwasanaeth mewn ymateb i faterion neu ofynion penodol fel y maent yn codi.

Mae ESIS hefyd yn gyfrwng i'r pedwar Awdurdod Lleol gronni adnoddau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant a datblygu adnoddau addysgu a dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir i ysgolion ar draws y pedair sir yn gyson, gan hefyd sicrhau arbedion maint a gostwng gorbenion cyflenwi. Mae ESIS hefyd yn 'gwerthu' ei wasanaethau a chynnyrch i ysgolion mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill.

Mae Cynnal yn gweithredu model tebyg yng Ngwynedd a Môn.

3.2.5 Roedd hefyd yn glir bod gwahaniaeth yn y pwysigrwydd y mae staff uwch o fewn rhai Awdurdodau Lleol yn ei roi i wasanaeth yr Athrawon

[22] Er nad yw Athrawon Bro yn cefnogi ysgolion uwchradd tu hwnt i hyrwyddo gweithgareddau 'pontio' rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3

Bro, ac yn wir i'r Gymraeg fel pwnc a hefyd fel cyfrwng addysgu. Er bod nifer o Awdurdodau Lleol wedi gosod agendâu uchelgeisiol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion a gwella cyrhaeddiad disgyblion, dywedwyd bod eraill yn fwy amwys tuag at y Gymraeg yn gyffredinol. Ar y nodyn ychydig yn llai cadarnhaol hwn, dywedodd un cyfrannwr fod Athrawon Bro mewn un sir neilltuol yn dal i gael eu galw yn 'the Welsh ladies'.

## 3.3 RHEOLI GWASANAETHAU ATHRAWON BRO

3.3.1 Fel y trafodir yn adran 3.2 uchod, mae timau Athrawon Bro yn y mwyafrif o ardaloedd yn rhan o'r Timau Gwella Ysgolion. Fel arfer caiff eu gwaith ei gynllunio a'i reoli gan swyddogion gwella ysgolion. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys drafftio ceisiadau am grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chynhyrchu adroddiadau ar y cynnydd a wnaed ar y targedau a gytunwyd. Mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno adroddiadau cynnydd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg unwaith y flwyddyn, ac adroddiad terfynol yn y mis Medi sy'n dilyn, sy'n rhoi'r trosolwg mwyaf cynhwysfawr o'r hyn a gyflawnwyd.

3.3.2 Ar y cyfan, yr un timau sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli gweithgareddau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Ysgolion Gwell. Mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys ysgrifennu ceisiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru am arian grant y Gronfa Ysgolion Gwell.

3.3.3 Dros y blynyddoedd, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi annog Awdurdodau Lleol i osod targedau cynyddol fesuradwy. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r targedau a gytunwyd yn cyfeirio at brosesau yn hytrach nag effeithiau mewnbwn Athrawon Bro. Mae enghreifftiau nodweddiadol o dargedau cysylltiedig â phroses yn cynnwys:

- ‘darparu dau gwrs trochi iaith (ar gyfer 2 gohort ar wahân) yn ystod pob blwyddyn academaidd’[23] ;
- ‘cynnig arweinyddiaeth a chymorth i asesu a safoni cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2’[24] ;
- ‘hyfforddi hyd at 30 o athrawon Cymraeg [mamiaith] a 40 o athrawon ail iaith’[25].

3.3.4 Wrth gwrs, mae rhai awdurdodau yn gosod targedau sy’n cyfeirio at effeithiau gwasanaethau Athrawon Bro, er efallai nad yw mewnbwn Athrawon Bro ond yn un o nifer o ffactorau sy’n effeithio ar eu cyflawniad. Mae’r enghreifftiau’n cynnwys:

- ‘bydd 65 y cant o ysgolion a arolygwyd gan Estyn yn ennill o leiaf Gradd 2 am ddwyieithrwydd’[26]
- ‘93 y cant o ddisgyblion i gyrraedd Lefel 4+ yng Nghyfnod Allweddol 2 a thros 36 y cant i gyrraedd Lefel 5’[27];
- ‘sicrhau bod iaith 80 y cant o ddisgyblion Rhaglen Trochi yn cynyddu o leiaf 1 lefe’[28] .

3.3.5 Fodd bynnag, mae targedau sy’n cyfeirio at effaith gwaith Athrawon Bro yn llawer mwy prin, a soniodd nifer fach o gyfranwyr bod absenoldeb ‘mesurau effaith’ yn ei gwneud yn amhosibl i Fwrdd yr Iaith Gymraeg neu uwch reolwyr o fewn Awdurdodau Lleol ffurfio barn wybodus am effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd gwasanaethau Athrawon Bro. Yn y cyd-destun hwn, credai nifer o gyfranwyr fod cyflwyno asesiad disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn torri tir newydd gan ei fod yn gwneud ysgolion yn fwy atebol am ddatblygiad ieithyddol y disgyblion hynny. Dywedwyd hefyd fod angen rhoi systemau ar waith i olrhain cynnydd ieithyddol disgyblion yn ystod Cyfnodau Allweddol 3 a 4 i sicrhau bod y momentwm yn cael ei gadw.

[23] Cais Grant 2010/11 Castell-nedd Port Talbot
[24] Cais Grant 2010/11 Bro Morgannwg
[25] Cais Grant 2010/11 Sir Ddinych
[26] Adroddiad Monitro Targedau 2009/10 Blaenau Gwent
[27] Cais Grant 2010/11 Caerdydd
[28] Cais Grant 2010/11 Ceredigion

3.3.6 Roedd gan rai Awdurdodau Lleol systemau gweddol soffistigedig ar gyfer monitro effeithiau gwaith Athrawon Bro ar ddisgyblion unigol, ac ar ymarferwyr ac ysgolion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir bob amser, ac roedd nifer o gyfranwyr yn agored wrth ddweud bod trefniadau ar gyfer monitro perfformiad o fewn eu Hawdurdodau Lleol eu hunain yn weddol lac ac yn aneffeithiol. Dywedwyd bod methiant i fonitro'r gwasanaeth mewn ffordd systematig yn arwain at dueddiad i gadw at yr hyn a wnaed bob amser, yn hytrach na herio'r sefyllfa fel y mae. Yn wir, dywedodd rhai bod diffyg targedau am effeithiau gwasanaethau Athrawon Bro yn adlewyrchu diffyg eglurdeb am yr hyn y bwriedir i'r gwasanaeth ei gyflawni a diffyg ymrwymiad uwch swyddogion rhai Awdurdodau Lleol at gynllunio a monitro'r gwasanaeth.

3.3.7 Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, nodwyd nad oes sôn am wasanaethau Athrawon Bro yn y rhan fwyaf o gynlluniau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol. Sonnir amdanynt yng Nghynlluniau Addysg Gymraeg Awdurdodau Lleol, ochr yn ochr â chyfeiriadau at wasanaethau ymgynghorol y Gymraeg, er dylid nodi fod amryw o'r cynlluniau hyn wedi dyddio braidd erbyn hyn, gan mai cynlluniau pum mlynedd oeddynt[29].

3.3.8 Oherwydd bod datblygu gallu ymarferwyr i addysgu'r Gymraeg ac addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg yn gonglfaen i wasanaeth yr Athrawon Bro, nodwyd y dylid rhoi sylw hefyd i asesu effeithiau gwasanaethau Athrawon Bro ar sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr, ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar y gwir ddefnydd a wnânt o'r iaith fel cyfrwng addysgu. Dadleuwyd gan un cyfrannwr fod 'angen i rywun rywle fesur effaith yr arian sy'n cael ei wario ... mae cyrsiau'n cael eu cynnal a channoedd o athrawon yn mynd iddynt ... ac mae'r safonau yn dal yn [wael]'. I'r perwyl hwn, fodd bynnag, dim ond

[29] Dylid nodi y gofynnir i Awdurdodau Lleol gynhyrchu cynlluniau tair blynedd erbyn hyn

nifer fach o Awdurdodau Lleol sy’n ceisio asesu lefelau sgiliau Cymraeg ymarferwyr, a lle gwneir hynny, diben yr ymarferiad yn gyffredinol yw helpu cynllunio gweithgaredd Athrawon Bro yn hytrach nag asesu effeithiau’r gwasanaethau a gyflwynwyd. Ymhellach, mae Awdurdodau Lleol sy’n casglu data am lefelau sgiliau ymarferwyr yn tueddu i ddefnyddio eu systemau mewnol eu hunain, sy’n golygu nad yw’n bosibl cymharu lefelau iaith ymarferwyr na’r cynnydd a wnaed fel canlyniad i gymorth Athrawon Bro o un sir i’r llall. Mewn gwirionedd, nid oes gan Gymru ddull systematig o asesu a chofnodi gallu ieithyddol ei weithlu addysgu.

3.3.9 Ar lefel fwy gweithredol, mae systemau ar gyfer rheoli gwaith beunyddiol Athrawon Bro a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn amserol rhwng Athrawon Bro ac o fewn timau ehangach Gwella Ysgolion yn ymddangos yn effeithlon yn gyffredinol. Mae timau Athrawon Bro yn tueddu i gwrdd yn rheolaidd i drafod eu gwaith a chyfnewid syniadau. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys aelodau o dimau ehangach Gwasanaeth Gwella Ysgolion. Mewn un ardal, roedd targedu gwasanaethau ar ysgolion neilltuol yn golygu nad oedd Athrawon Bro mwyach yn gweithio’n llwyr gyda chlystyrau fel yr arferent, a dywedwyd bod hyn wedi hybu gwell cydweithio ymysg aelodau’r tîm.

3.3.10 Ar lefel ehangach, cyfeiriwyd eisoes at weithio traws-ffiniol rhwng Awdurdodau Lleol, ond cydnabuwyd gan rai nad yw hyn o reidrwydd yn mynd yn ddigon pell i fodloni’r agenda a nodir yn y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Cafodd y syniad o fabwysiadu dulliau rhanbarthol ymateb cymysg mewn mannau eraill. Er bod cyfranwyr yn cydnabod y medrai’r manteision gynnwys arbedion cost, gwneud rhannu arbenigedd yn rhwyddach, rhannu ehangach ar adnoddau addysgu a dysgu a gwasanaeth mwy cyson, roedd pryder y medrai dull rhanbarthol fod yn llai hyblyg a llai ymatebol i angen lleol. Mynegwyd pryder hefyd y dylai unrhyw drefniadau rhanbarthol gydnabod cymeriad ieithyddol gwahanol

ardaloedd yn ogystal â natur y gwasanaeth sydd ei angen, ac ni ddylai o reidrwydd fod yn seiliedig ar ystyriaethau daearyddol yn unig. Er enghraifft, dadleuwyd bod gan Geredigion a rhannau o Sir Gaerfyrddin fwy yn gyffredin gyda Môn a Gwynedd na chydag Awdurdodau eraill sy'n rhan o Gonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru (a elwir SWAMWAC[30]). Mae gan rannau deheuol a mwyaf gorllewinol Conwy fwy yn gyffredin gyda Môn a Gwynedd, ac mae natur y gwasanaeth sydd ei angen yn rhannau arfordirol a dwyreiniol y sir yn debycach i'r hyn sydd ei angen yn Sir Ddinbych.

3.3.11 Dywedwyd hefyd y byddai rhannu adnoddau rhanbarthol yn ei gwneud yn anos targedu gwasanaethau ar yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf heb gyflwyno system codi tâl a fedrai fod yn gymhleth. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd un cyfrannwr fod agenda'r Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol yn awgrymu'r disgwyl 'y dylai Awdurdodau Lleol ad-drefnu heb ad-drefnu ... drwy rwydweithio'.

3.3.12 Serch hynny, mae consortiwm Gogledd Cymru wedi dechrau ymchwilio i weithio traws-ranbarthol a sefydlwyd is-grŵp 'Addysg Gymraeg'. Bydd yn cyflwyno papur sefyllfa yn y dyfodol agos i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (GCAC) ar lefel genedlaethol.

## 3.4 ARIANNU GWASANAETH YR ATHRAWON BRO

3.4.1 Cynhelir gwasanaethau cefnogi'r Gymraeg i ysgolion trwy gyfuniad o:

- o arian grant a ddyrennir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sydd â'i wreiddiau yn Adran 21 Deddf Addysg 1980 i hyrwyddo addysg Gymraeg. Deillia'r arian hwn o Adran Diwylliant a Chwaraeon o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru;


[30] South Wales and Mid Wales Consortium, sef consortiwm o chwech awdurdod lleol (Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Phowys sy'n gweithio ar y cyd i ddatblygu systemau a ffyrdd newydd o weithio, er mwyn cyflwyno gwasanaethau gwell i blant a phobl ifanc i'w cefnogi i gyflawni safonau gwell

o arian grant a ddaw o Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell;

o cyfraniadau Awdurdodau Lleol.

3.4.2 Gwerth grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2010-11 oedd £2.944 miliwn ac yn 2009-10, roedd yn werth £2.901 miliwn[31], er bod y cyllid a roddwyd gan yr Adran Diwylliant a Chwaraeon (dan Adran 21 Deddf Addysg 1980) wedi parhau'n gyson, ar £2.312 miliwn y flwyddyn, ers 2002/03 o leiaf. Fodd bynnag, fel mae Ffigur 3.6 yn dangos isod, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi ychwanegu at y cyllid hwnnw yn gynyddol bob blwyddyn er mwyn rhoi cynnydd chwyddiant i Awdurdodau Lleol. Gwnaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg hyn i gydnabod y ffaith bod cyfran sylweddol o'r cyllid grant yn cael ei ddefnyddio i dalu am gyflogau Athrawon Bro ac na fyddai'n bosibl cynnal y gwasanaeth heb ddarparu am chwyddiant cyflogau dros gyfnod.

***Ffigur 3.6: Cyfanswm Gwerth Grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2003/04 i 2010/11***




Ffynhonnell:
Bwrdd yr Iaith Gymraeg

3.4.3 Yn ôl strategaeth grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1999 (sy'n parhau mewn grym heddiw), nod y grant yw atodi

[31] Rhoddir tabl sy'n dangos yr hyn a ddyranwyd i bob Awdurdod Lleol yn Atodiad B

a chefnogi'r gwaith a wneir drwy gyllid Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant [32] i gyflwyno'r iaith Gymraeg i athrawon, fel y medrant yn eu tro, addysgu'r iaith i'w dosbarthiadau. Mae'r ddogfen yn mynd ymlaen i ddweud bod ffin bendant rhwng y ddwy ffrwd gyllid, er bod y ddau grant yn ategu gwaith ei gilydd. Y blaenoriaethau ar gyfer cyllid grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg a nodir yn y ddogfen strategaeth yw cefnogi:

- gwasanaeth Athrawon Bro;
- darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid;
- cyrsiau preswyl;
- cynlluniau peilot.

3.4.4 Mae Tabl 3.1 yn nodi cost amcanol Athrawon Bro a gwasanaethau cysylltiedig ym mhob ardal Awdurdod Lleol ar gyfer 2009/10 a gwerth y cyfraniadau tuag at y costau hynny sy'n deillio o Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ogystal â'r cyfraniad a wneir gan Awdurdodau Lleol unigol. Dengys fod y cyfraniad mae Awdurdodau Lleol yn ei wneud yn amrywio yn sylweddol o un i'r llall gyda, ar un llaw, yr Awdurdodau sy'n cael eu gwasanaethu gan ESIS yn cyfrannu oddeutu 25 y cant, a Chastell Nedd Port Talbot, ar y llaw arall, yn cyfrannu 77 y cant.

3.4.5 Mae dogfen grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999) yn nodi y dylid defnyddio'r grant i ariannu Athrawon Bro wrth ddarparu cymorth i'r gwaith ymarferol o addysgu'r Gymraeg i ddisgyblion yn y dosbarth ac na ddylid ei ddefnyddio i drefnu cyrsiau i wella gafael yr athrawon eu hunain o'r Gymraeg ar gyrsiau Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS). I bob pwrpas, ffocws y grant yw beth gellid ei alw yn 'hyfforddiant yn y gweithle'. O fewn y cyfyngiadau hyn mae'r ddogfen yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol gyflwyno cynigion a osodwyd o fewn cyd-destun sefyllfa ieithyddol y sir a'i pholisïau cyfredol ar addysg Gymraeg.

[32] Bellach y Gronfa Ysgolion Gwell

3.4.6 Mae Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ffynhonnell arian (£2.1 miliwn net neu £3.67 miliwn gros yn 2009-10, a £3.7 miliwn gros yn 2010-11) sy’n cefnogi hyfforddiant arall y tu allan i’r gweithle, er mwyn:

- codi safonau addysgu iaith Gymraeg ar draws pob Cyfnod Allweddol;
- codi lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg ar draws pob Cyfnod Allweddol;
- cynyddu nifer y disgyblion sy’n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd;
- cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy’n parhau i wella eu sgiliau yn y Gymraeg pan symudant o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd; a
- cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy’n dilyn cymwysterau (cyffredinol a galwedigaethol) drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.4.7 Mae canllawiau Cronfa Ysgolion Gwell yn nodi’r agenda a nodwyd yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy roi pwyslais ar gydweithio ar draws gwasanaethau a rhwng Awdurdodau Lleol. Mae Cylchlythyr Cronfa Ysgolion Gwell 2010/11 yn nodi bod y mathau canlynol o weithgareddau yn gymwys am gymorth:

- presenoldeb ymarferwyr ar gyrsiau hyfforddiant yn hyrwyddo’r technegau diweddaraf mewn addysgu’r Gymraeg fel iaith;
- presenoldeb ymarferwyr ar gyrsiau hyfforddiant sy’n anelu i wella eu sgiliau iaith Gymraeg priodol ar gyfer yr ystafell ddosbarth;
- presenoldeb ymarferwyr mewn digwyddiadau yn hyrwyddo dynodi a rhannu arfer orau mewn addysgu Cymraeg fel pwnc ac mewn addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog;
- gweithgareddau sy’n meithrin parhad a dilyniant mewn sgiliau iaith Gymraeg ar draws pob Cyfnod Allweddol, yn arbennig pan fo disgyblion yn symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd;

*Tabl 3.1: Cost Amcanol Athrawon Bro a Gwasanaethau Cysylltiedig 2009/10 (£000oedd)*[33]

| | Ynys Môn | Gwynedd | Conwy | Dinbych | Fflint | Wrecsam | Powys | Ceredigion | Penfro | Caerfyrddin | CNPT | Abertawe | Pen y Bont | Rhondda Cynon Tâf | Merthyr Tudful | Caerffili | Bro Morgannwg | Caerdydd | Torfaen | Blaenau Gwent | Mynwy | Casnewydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaeth Athrawon Bro | 49 | 0 | 269 | 226 | 233 | 146 | 990 | 119 | 202 | 546 | 509 | 461 | 126 | 230 | 72 | 167 | 156 | 365 | 190 | 190 | 190 | 239 |
| Cydgysylltwyr Iaith | 9 | 33 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Canolfannau Hwyrddyfodiaid | 271 | 531 | 136 | 86 | 0 | 0 | 0 | 71 | 83 | 7 | 57 | 57 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyrsiau Preswyl | 0 | 0 | 3 | 4 | 5 | 137 | 8 | 0 | 15 | 4 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Arbrofol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 329 | 564 | 409 | 316 | 238 | 283 | 998 | 190 | 300 | 579 | 573 | 525 | 126 | 230 | 72 | 167 | 158 | 382 | 190 | 190 | 190 | 239 |
| **Ffynonellau arian** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Grant ByIG | 119 | 226 | 116 | 98 | 115 | 104 | 257 | 133 | 169 | 182 | 130 | 161 | 94 | 172 | 54 | 125 | 83 | 192 | 102 | 70 | 83 | 117 |
| Cyfraniad Awdurdodau Lleol | 210 | 338 | 292 | 218 | 123 | 179 | 741 | 57 | 131 | 397 | 443 | 364 | 32 | 58 | 18 | 42 | 75 | 190 | 88 | 120 | 107 | 122 |
| Cyfanswm | 329 | 564 | 409 | 316 | 238 | 283 | 998 | 190 | 300 | 579 | 573 | 525 | 126 | 230 | 72 | 167 | 158 | 382 | 190 | 190 | 190 | 239 |
| **% yr arian yn deillio o bob ffynhonell** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Grant ByIG | 36% | 40% | 28% | 31% | 48% | 37% | 26% | 70% | 56% | 31% | 23% | 31% | 74% | 75% | 75% | 75% | 53% | 50% | 54% | 37% | 44% | 49% |
| Awdurdodau Lleol | 64% | 60% | 72% | 69% | 52% | 63% | 74% | 30% | 44% | 69% | 77% | 69% | 26% | 25% | 25% | 25% | 47% | 50% | 46% | 63% | 56% | 51% |

Ffynhonnell:
Bwrdd yr Iaith Gymraeg

[33] Cymerwyd y wybodaeth yma o ffurflenni cais am grant 2009/10

- o cyfarfodydd, cyrsiau a gweithdai ar gyfer ymarferwyr sy'n ymwneud ag ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion, yn arbennig ar gyfer y grŵp oedran 14-19; a
- o gweithgareddau eraill lle mae dadansoddiadau o angen yn dangos y byddant yn ategu agweddau o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn gysylltiedig ag addysgu Cymraeg.

3.4.8 Mae'n werth nodi bod £120 mil y flwyddyn yn cael ei dynnu o grant Cronfa Ysgolion Gwell i gefnogi rhaglen HMS genedlaethol cyfrwng Cymraeg CBAC. Mae grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i CBAC yn cynrycholi 60 y cant o gyfanswm gwerth y rhaglen hyfforddiant a gynhelir, gyda'r 40 y cant arall (h.y. £80 mil) yn dod o gyfraniadau Awdurdodau Lleol.

3.4.9 Mae'n anodd nodi union werth grant Cronfa Ysgolion Gwell sy'n cael ei ddefnyddio yn uniongyrchol i gynnal gwasanaethau cefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion. Wrth ddyrannu grantiau Cronfa Ysgolion Gwell i Awdurdodau Lleol, mae APADGOS yn eu gorfodi i ddirprwyo 60 y cant o'r arian a dderbynnir i ysgolion er bod rhywfaint o hyblygrwydd ar gael yn hyn o beth. Yn ymarferol, mae'r canran o'r grant iaith Gymraeg/addysg cyfrwng Gymraeg[34] sy'n cael ei ddyrannu i ysgolion yn amrywio yn sylweddol. Yn 2009/10, er enghraifft, cadwodd un Awdurdod Lleol y grant cyfan a ddyrannwyd dan Weithgaredd 5, ar ôl cytuno gydag ysgolion. Ar y pegwn arall, cadwodd tri Awdurdod Lleol lai na 5 y cant o'u dyraniadau Gweithgaredd 5, gan adael i ysgolion brynu hyfforddiant a gwasanaethau cefnogi iaith Gymraeg/addysg cyfrwng Cymraeg fel y mynnent. Mae'n werth nodi yn y cyd-destun yma fod nifer o ysgolion yn prynu'r math yma o hyfforddiant gan Dimau Gwella Ysgolion Awdurdodau Lleol, a darperir rhai o'r sesiynau hyn gan Athrawon Bro.

3.4.10 Gofynnir i Awdurdodau Lleol gyfrannu o'u hadnoddau eu hunain tuag at weithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grant Cronfa Ysgolion


[34] Dan Weithgaredd 5 (Iaith Pawb mewn Ysgolion) tan 2009/10 a dan Flaenoriaeth 2 (Gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg) yn 2010/11

Gwell, gydag arian y Gronfa Ysgolion Gwell yn cynrychioli dim mwy na 60 y cant o wariant.  Yma, eto, mae rhai Awdurdodau Lleol yn buddsoddi mwy o'u hadnoddau eu hunain na'r lleiafswm gofynnol.

3.4.11 Mae Tabl 3.2 yn nodi cost amcanol gweithgareddau hyfforddiant mewn swydd, gan gynnwys costau cyflenwi cysylltiedig ym mhob ardal Awdurdod Lleol ar gyfer 2009/10 a gwerth y cyfraniadau tuag at y costau hynny sy'n dod o Lywodraeth y Cynulliad (trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell) a'r cyfraniad a wneir gan Awdurdodau Lleol unigol.

3.4.12 At ei gilydd, felly, roedd costau gwasanaethau cymorth iaith a gynigwyd i ysgolion gan Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill yn oddeutu £10.8 miliwn yn 2009/10.  Fel mae Ffigwr 3.7 yn dangos, cyfrannodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg 27 y cant (£2.9 miliwn) tuag at y costau hyn, cyfrannodd y Gronfa Ysgolion Gwell 20 y cant (£2.1 miliwn), a chyfrannodd yr Awdurdodau Lleol 53 y cant (£5.8 miliwn).

Ffigur 3.7:  Ffynonellau Arian




Ffynhonnell:
Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru

*Tabl 3.2: Cost Amcanol Hyfforddiant yn ymwneud ag Addysgu Iaith a Chyfrwng Gymraeg 2009/10 (£000oedd)*

| | Ynys Môn | Gwynedd[35] | Conwy | Dinbych | Fflint | Wrecsam[36] | Powys | Ceredigion[37] | Penfro[38] | Caerfyrddin | CNPT | Abertawe | Pen y Bont | Rhondda Cynon Tâf | Merthyr Tudful | Caerffili | Bro Morgannwg | Caerdydd[39] | Torfaen | Blaenau Gwent | Mynwy | Casnewydd[40] | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Costau Canolog Awdurdodau Lleol | 46 | 72 | 5 | 104 | 82 | 62 | 148 | 55 | 125 | 81 | 129 | 108 | 7 | 76 | 10 | 6 | 91 | 204 | 56 | 54 | 34 | 55 | 1610 |
| Costau Ysgolion Unigol | 36 | 56 | 124 | 18 | 96 | 41 | 0 | 19 | 45 | 127 | 42 | 167 | 164 | 207 | 77 | 222 | 85 | 123 | 67 | 43 | 66 | 75 | 1899 |
| | 81 | 128 | 129 | 122 | 178 | 103 | 148 | 74 | 170 | 208 | 171 | 275 | 171 | 283 | 87 | 228 | 176 | 327 | 123 | 97 | 100 | 130 | 3509 |
| **Ffynonellau arian** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Grant CYG | 49 | 77 | 77 | 73 | 107 | 62 | 89 | 44 | 102 | 125 | 103 | 165 | 103 | 170 | 52 | 137 | 106 | 196 | 74 | 58 | 60 | 78 | 2,105 |
| Cyfraniad Awdurdodau Lleol | 32 | 51 | 52 | 49 | 71 | 41 | 59 | 30 | 68 | 83 | 68 | 110 | 68 | 113 | 35 | 91 | 70 | 131 | 49 | 39 | 40 | 52 | 1,404 |
| Cyfanswm | 81 | 128 | 129 | 122 | 178 | 103 | 148 | 74 | 170 | 208 | 171 | 275 | 171 | 283 | 87 | 228 | 176 | 327 | 123 | 97 | 100 | 130 | 3,509 |

Ffynhonnell:
Gwybodaeth rheoli Cronfa Ysgolion Gwell a dderbyniwyd gan APADGOS, ac a ddarparwyd yn wreiddiol gan Awdurdodau Lleol

[35] Trosglwyddwyd £16.8 mil o ddyraniad Gwynedd i ariannu gweithgareddau gwella ysgolion eraill
[36] Trosglwyddwyd £44.1 mil o ddyraniad Wrecsam at i ariannu gweithgareddau gwella ysgolion eraill
[37] Trosglwyddwyd £4 mil o ddyraniad Ceredigion at i ariannu gweithgareddau gwella ysgolion eraill
[38] Ychwanegwyd £25.9 mil at ddyraniad *"Iaith Pawb mewn Ysgolion"* Penfro o gyllidebau oedd yn wreiddiol wedi eu neilltuo at weithgareddau eraill yn ymwneud a gwella ysgolion
[39] Trosglwyddwyd £60 mil o ddyraniad Caerdydd i ariannu gweithgareddau gwella ysgolion eraill
[40] Trosglwyddwyd £61 mil o ddyraniad Casnewydd i ariannu gweithgareddau gwella ysgolion eraill

3.4.13 Mae'n amlwg, tan yn ddiweddar iawn, mai cymharol ychydig o gyswllt fu rhwng y tîm sy'n goruchwylio Cronfa Ysgolion Gwell o fewn Llywodraeth y Cynulliad a'r tîm sy'n goruchwylio'r grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Er na chredid i hyn arwain at unrhyw broblemau penodol, credai rhai rhanddeiliaid y medrai bod manteision i ddod â'r cynlluniau grant yma dan oruchwyliaeth un tîm. Gallai hyn arwain at well trosolwg o'r ddarpariaeth a bwydo i mewn yn fwy effeithiol i'r drefn gynllunio strategol, monitro a darparu. Gallai hefyd symleiddio pethau i Awdurdodau Lleol ac efallai sicrhau gwell integreiddiad rhwng gweithgareddau yn ogystal ag arbedion gweinyddol. Yn wir, adnabuwyd gan rai rhanddeiliaid y gallai'r Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) 2010 (fydd yn arwain at ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg), os caiff ei gymeradwyo, fod yn gatalydd i ddod â'r ddau gynllun grant at ei gilydd. Serch hynny, roedd pryder na ddylid amharu ar ddyfodol yr arian sy'n deillio o'r Adran Dreftadaeth nac, yn wir, ar yr arian ychwanegol a ddyrennir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, wrth drosglwyddo cyfrifoldebau dros 'addysg' Bwrdd yr Iaith Gymraeg i APADGOS.

3.4.14 Roedd mwyafrif llethol y cyfranwyr o blaid cadw cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer y gwasanaeth, gyda nifer yn dweud pe na byddai grantiau pwrpasol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Gronfa Ysgolion Gwell ar gael, y medrai'r arian a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth gael ei 'lyncu' yn rhwydd iawn mewn man arall. Mynegodd nifer o gyfranwyr bryder y byddai Awdurdodau Lleol yn wynebu pwysau ariannol enfawr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae'n sicr y bydd craffu ar y buddsoddiad a wneir mewn addysg Gymraeg, ynghyd â gwasanaethau eraill. Yn wir, dadleuwyd bod yr angen brys am fwy o effeithiolrwydd yn golygu y dylai Awdurdodau ac ysgolion sicrhau bod y gallu yn bodoli ar lawr y dosbarth i gyflwyno addysg yn y Gymraeg fel pwnc ac addysg cyfrwng Cymraeg ac y dylai gwasanaethau Athrawon Bro fod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol.

3.4.15 Credai cyfranwyr hefyd y byddai'n fuddiol dyfarnu cyllid grant ar sail dreigl o dair blynedd er mwyn cynnig graddfa amser realistig er mwyn cynllunio. Yn wir, roedd hyn yn adleisio dadl a wnaethpwyd yn arolygiad 1996 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fod y drefn o ariannu'r gwasanaeth ar sail flynyddol yn llesteirio cynllunio tymor hir ac yn tanseilio hyder yr Athrawon Bro presennol a darpar Athrawon Bro rhag gweithio i'r gwasanaeth.

# 4. SWYDDOGAETH ATHRAWON BRO

## 4.1 CYFLWYNIAD

4.1.1 Mae'r gwasanaethau a gyflenwir gan Athrawon Bro yn dibynnu llawer iawn ar allu ieithyddol staff o fewn ysgolion, sydd ei hun i raddau helaeth yn gynnyrch o gadernid y Gymraeg mewn ardaloedd neilltuol, yn ogystal â phwyslais polisïau iaith Gymraeg a recriwtio Awdurdodau Lleol dros y blynyddoedd. Ar un pegwn, cyfyngir y gefnogaeth uniongyrchol a roddir i ysgolion Môn a Gwynedd i wasanaeth 'Cydgysylltwyr Iaith Dalgylchol' rhan amser, ar y sail y disgwylir i'r staff fod yn hollol ddwyieithog. Ar y llaw arall, mae ysgolion sydd ddim yn rhai cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle siaredir llai o Gymraeg yn ddibynnol iawn ar Athrawon Bro i fod yn sylfaen i'w haddysgu iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg. Yng Ngwent, er enghraifft, dim ond 10 allan o tua 550 o athrawon cynradd y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg sy'n siarad Cymraeg, sef tua 1.8 y cant o'r gweithlu[41].

4.1.2 Er gwaethaf y gwahaniaethau cyd-destun hyn, caiff y gwasanaethau a ddarperir gan dimau Athrawon Bro yn gyffredinol eu penderfynu ar sail:

- telerau grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo addysg Gymraeg ac, yr un mor bwysig, ganllawiau llafar gan staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- telerau grant Cronfa Ysgolion Gwell o ran darparu hyfforddiant iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg i athrawon cynradd;
- barn Athrawon Bro eu hunain, y dywedwyd gan swyddogion Awdurdodau Lleol eu bod yn 'adnabod ysgolion ac athrawon yn well na neb' o ganlyniad i'w gwaith mewn ysgolion dros y blynyddoedd;
- gwybodaeth a gafwyd gan Swyddogion Gwella Ysgolion;
- gwybodaeth gan benaethiaid ysgol a hunan-arfarniadau ysgol, yn cynnwys adolygiadau o ddwyieithrwydd;
- canlyniadau asesiadau disgyblion Cyfnod Allweddol 2 mewn Cymraeg ail iaith a Chymraeg (iaith gyntaf);

[41] Data dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol

- o arolygiadau arfaethedig Estyn h.y. Athrawon Bro yn helpu ysgolion i ddynodi a chywiro gwendidau cyn arolwg;
- o canfyddiadau arolygiadau Estyn h.y. Athrawon Bro yn helpu ysgolion i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a amlygwyd; ac
- o anghenion hyfforddiant neu gymorth yn deillio o newidiadau mewn staffio ysgolion.

4.1.3 Mae newidiadau ym mholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn dylanwadu ar bwyslais eu gwaith, sy'n golygu bod gwaith Athrawon Bro wedi newid yn eithaf sylweddol yn y tair blynedd ddiwethaf. Trafodir hyn isod.

4.1.4 Er bod ystod y gwaith a wneir gan Athrawon Bro yn amrywio o un Awdurdod Lleol i'r llall, gall eu gwasanaethau gael eu rhannu yn bedwar categori bras sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf, fel sy'n dilyn:

- o rhoi cefnogaeth ymarferol i ysgolion;
- o addysgu'r Gymraeg i 'Hwyrddyfodiaid';
- o datblygu adnoddau addysgu a dysgu; a
- o cyflwyno cyrsiau HMS

4.1.5 Trafodir pob un o'r gweithgareddau hyn yn eu tro isod.

## 4.2 CYMORTH YMARFEROL I YSGOLION

4.2.1 Mae'r Athrawon Bro yn gweithio gan fwyaf mewn ysgolion cynradd sydd ddim yn rhai cyfrwng Cymraeg a lle caiff y Gymraeg ei dysgu'n bennaf fel ail iaith. Eu prif swyddogaeth yw rhoi cymorth i ymarferwyr addysgu Cymraeg ail iaith neu addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn fel arfer yn cynnwys cyflwyno 'gwersi enghreifftiol', cyflwyno neu helpu i ddatblygu adnoddau addysgu a dysgu penodol i ymarferwyr, a thrafod ymagweddau pedagogaidd ac arsylwi ymarferwyr sy'n addysgu'r Gymraeg neu'n defnyddio'r Gymraeg i addysgu pynciau eraill. Mewn gwirionedd, eu rôl yw darparu hyfforddiant yn y gweithle i

ymarferwyr sydd ddim yn rhugl yn y Gymraeg neu heb hyder i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu. Mae'r agwedd hon o'u gwaith yn aml yn ategu rhaglenni HMS a gynigir i ymarferwyr (gweler adran 4.9).

4.2.2 Mae hyn yn symudiad pwysig yn ffocws rôl Athrawon Bro, ac yn adeiladu ar argymhelliad a wnaethpwyd gan Estyn yn 2003 i ddefnyddio Athrawon Bro i 'gynghori athrawon dosbarth fel mae eu hyder a'u sgiliau wrth addysgu'r iaith yn cynyddu yn hytrach na dibynnu yn llwyr ar Athrawon Bro i addysgu dosbarthiadau yn uniongyrchol' (Estyn, 2003, tud23). Yn ddieithriad, gwnaeth Awdurdodau Lleol hi'n glir i ysgolion na ddylai Athrawon Bro gael eu hystyried fel athrawon peripatetig y Gymraeg, ond yn hytrach fel adnodd i helpu staff addysgu i ddatblygu eu galluoedd i addysgu'r Gymraeg fel pwnc, neu ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i addysgu pynciau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng addysgu'r Gymraeg a darparu gwersi engreifftiol, ac mewn nifer fechan o achosion, mae'n ddi-os bod gweithgareddau Athrawon Bro yn tueddu tuag at y cyntaf mewn rhai ardaloedd - yn ôl un Ymgynghorwr y Gymraeg, 'mae'r Gymraeg yn dal i ddod mewn a mynd allan o rai ysgolion gydag Athrawon Bro' - yn arbennig mewn ardaloedd lle siaredir llai o Gymraeg. Erbyn hyn, mae timau Athrawon Bro wedi datblygu strategaethau ar gyfer delio gyda phwysau gan ysgolion i fod â rôl addysgu mwy gweithgar, ac mae hyn yn cynnwys tynnu gwasanaethau ymaith o'r rhai sydd ddim yn ymwneud yn llawn â datblygu galluoedd staff ac ysgolion. e.e. yn ne Penfro.

4.2.3 Mae Sir Benfro wedi cymryd safiad pendant iawn yn y cyswllt hwn.

***Astudiaeth Achos: Newid Natur Gwasanaeth Athrawon Bro yn Sir Benfro***

Hyd ryw dair blynedd yn ôl, roedd Athrawon Bro yn Sir Benfro yn darparu'r hyn oedd yn gyfystyr â gwasanaeth addysgu'r Gymraeg dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth, i ysgolion yn ne'r sir lle siaredir llai o

Gymraeg. Er bod yr ymagwedd hon yn galluogi pob ysgol i gynnig o leiaf beth gwybodaeth o'r Gymraeg i ddisgyblion, nid oedd yn gwneud fawr i annog ysgolion i fynd i'r afael o ddifrif ar addysgu'r iaith fel pwnc na'i defnyddio fel cyfrwng ar gyfer addysgu a chyfathrebu.

Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cymryd mwy o berchnogaeth ar y Gymraeg, mabwysiadodd yr Awdurdod Lleol bolisi o annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gyflogi o leiaf un aelod o staff gyda'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ar yr un pryd, gostyngodd yr Awdurdod Lleol nifer yr Athrawon Bro o 15 i wyth a'i gwneud hi'n glir i ysgolion na fyddai'r tîm llai o Athrawon Bro yn dysgu Cymraeg i ddisgyblion bellach, ond mai eu rôl fyddai helpu ysgolion i feithrin eu gallu i addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ddiweddarach fe enwebwyd hefyd nifer o ymarferwyr presennol nad oeddent yn siarad Cymraeg neu'n ddysgwyr i gymryd rhan mewn cwrs dwys a gynlluniwyd yn benodol i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a sgiliau pedagogaidd cysylltiedig. Cefnogwyd yr hyfforddiant yma dan 'Gynllun Sabothol' Llywodraeth Cynulliad Cymru[42].

Dywedodd cyfranwyr fod y strategaeth a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Lleol wedi bod yn fuddiol wrth gael ysgolion cyfrwng Saesneg i dderbyn cyfrifoldeb am addysgu a defnyddio'r Gymraeg – 'Bu gwneud i'r ysgol deimlo perchnogaeth o'r ddarpariaeth yn allweddol ... mae'r ysgolion nawr yn gyfrifol am lwyddiant neu fethiant eu darpariaeth'. Erbyn hyn dim ond nifer fach iawn o ysgolion yn Sir Benfro sy'n dibynnu ar Athrawon Bro i ddysgu Cymraeg i'w disgyblion.

Mae'r model presennol yn Sir Benfro yn un sydd, mewn egwyddor, yn cynnig nifer o gryfderau yn enwedig o safbwynt cynyddu perchnogaeth

[42] Ariannir y Cynllun Sabothol, ochr yn ochr â'r Rhaglen Genedlaethol i Hyfforddi Ymarferwyr, gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn cynyddu'r nifer o ymarferwyr sydd â'r gallu i addysgu a hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ystod o addysg gyn ag ôl 16

a chapasiti ysgolion de'r Sir i ddarparu gwersi Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliad ynglŷn ag effaith y newid ar safonau dysgu o fewn ysgolion Sir Benfro.

4.2.4 Wrth dderbyn y dylai ysgolion gymryd perchnogaeth gryfach ar addysgu a defnyddio'r Gymraeg, mae diffyg capasiti yn amharu ar allu llawer ohonynt i wneud hynny, gyda sefyllfa'r Gymraeg mewn rhai ysgolion yn cael ei disgrifio fel 'bregus iawn'. Nododd amryw o gyfranwyr y bu Athrawon Bro yn allweddol wrth gynnal addysg Gymraeg mewn rhai ysgolion dros y blynyddoedd, ond nad ydynt yn adnodd digonol i greu'r newidiadau angenrheidiol i gwrdd ag uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.2.5 Fodd bynnag, dywedodd y ddwy astudiaeth gan Estyn (2003) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996) fod cefnogaeth Athrawon Bro yn aml yn cael ei lledaenu'n rhy denau ac nad oedd wedi ei thargedu'n ddigon effeithiol i ddiwallu anghenion. Yn y cyswllt hwn, argymhellodd Estyn y dylid targedu ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol ar sail dros dro.

4.2.6 Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, dechreuodd nifer fechan o Awdurdodau Lleol dargedu eu gwasanaethau Athrawon Bro ar ysgolion penodol ac mae nifer o rai eraill wrthi'n ystyried y posibilrwydd o wneud hyn. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth gan Awdurdodau Lleol, drwyddi draw, na all gwasanaeth sydd ddim yn ddwys ac sydd yn aml iawn yn cael ei daenu'n denau, obeithio creu system a all gynhyrchu siaradwyr Cymraeg, neu arwain at y lefelau cyrhaeddiad a geisir gan ddisgyblion. Mae'r pwyslais cynyddol hwn ar dargedu gwasanaethau yn bodoli i raddau hefyd oherwydd gofynion datblygiadau megis dyfodiad y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008 ar amser Athrawon Bro ynghyd â chyflwyno asesiadau disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Ar nodyn ychydig llai cadarnhaol, roedd teimlad mai ystyriaethau ariannol yrrodd rhai Awdurdodau Lleol i dargedu gwasanaethau eu Hathrawon Bro yn fwy penodol.

4.2.7 Mae Conwy a Bro Morgannwg, er enghraifft, wedi datblygu systemau 'goleuadau traffig' i ddynodi ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae Ceredigion wedi sefydlu system o dargedu cymorth hefyd.

***Astudiaeth Achos: Targedu Cymorth Athrawon Bro yng Ngheredigion***

O fis Medi 2009 dechreuodd Ceredigion dargedu gwasanaethau Athrawon Bro yn ôl y capasiti a geir o fewn ysgolion (yn nhermau addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu cyfrwng Cymraeg), ar ôl cynnig gwasanaeth fwy neu lai yr un fath i bawb cyn hynny.

Gwahoddwyd ysgolion y bernid eu bod mewn angen i gyflwyno 'ceisiadau' ar gyfer cymorth ychwanegol, gan sicrhau felly eu bod yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio Athrawon Bro i wella safonau, gan roi sicrwydd i'r Awdurdod Lleol fod ysgolion yn ymroddedig i'r broses. Galluogodd y broses hefyd i ddealltwriaeth glir ddatblygu ar y cyd rhwng ysgolion, yr Awdurdod Lleol ac Athrawon Bro o'r gwendidau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy.

Er bod mwyafrif yr ysgolion yn dal i dderbyn peth cefnogaeth gan Athrawon Bro, mae dwyster y gefnogaeth honno'n amrywio, gydag:

- ysgol cyfrwng Saesneg yn derbyn gwerth deuddydd o fewnbwn yr wythnos dros bedwar diwrnod, am flwyddyn gyfan. Nod y gefnogaeth hon yw cynyddu'r gyfran o'r cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog;
- 20 ysgol yn derbyn gwerth un diwrnod o fewnbwn yr wythnos dros ddau ddiwrnod, am flwyddyn academaidd gyfan;
- 9 ysgol yn derbyn un diwrnod o fewnbwn yr wythnos am un tymor;
- 15 ysgol yn derbyn ymweliad bob pythefnos

Ar gyfer yr ysgolion hynny sydd ddim mwyach yn derbyn unrhyw gymorth gan y tîm Athrawon Bro, mae'r Awdurdod Lleol wedi trefnu mewnbwn gan gwmni theatr[43], sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafar disgyblion gan ddefnyddio technegau 'addysg drwy ddrama'. Cynlluniwyd y gweithgareddau i gyd-fynd â themâu neilltuol yn y cwricwlwm gan hefyd ddatblygu geirfa a phatrymau iaith neilltuol. Medrid dadlau fod cyflwyno'r gefnogaeth hon yn lliniaru effeithiau tynnu gwasanaethau ymaith o'r ysgolion hynny sy'n perfformio orau.

4.2.8 Mae Awdurdodau Lleol eraill yn parhau'n amharod i dargedu gwasanaethau Athrawon Bro, yn bennaf oherwydd y byddai rhoi blaenoriaeth i rai ysgolion yn golygu na fyddai eraill yn cael cymorth. Byddai hyn, fe ddadleuwyd, yn hollbwysig i'w galluogi i addysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn yr Awdurdodau hynny, mae Athrawon Bro yn gyffredinol yn gweithio gyda chlystyrau o ysgolion cynradd sy'n bwydo ysgolion uwchradd penodol.

4.2.9 Yn y blynyddoedd diwethaf, rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysgu pynciau eraill mewn ysgolion sydd ddim yn rhai cyfrwng Cymraeg. Eto, mae'r graddau y bu hyn yn bosibl wedi amrywio ymysg yr Awdurdodau. Fel y nodir uchod, mae Ceredigion wedi mabwysiadu strategaeth bwrpasol o dargedu cefnogaeth Athrawon Bro ar ysgolion sy'n dymuno cynyddu'r gyfran o'r cwricwlwm a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymerwyd agwedd debyg yng Nghonwy. Mewn ardaloedd eraill lle siaredir llai o Gymraeg megis Bro Morgannwg a Phowys, mae Athrawon Bro wedi ceisio datblygu sgiliau a hyder ymarferwyr i raddfa ddigonol i'w galluogi i gyflwyno elfennau o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda ffocws neilltuol ar bynciau mwy ymarferol a gweledol megis Celf, Dylunio a Thechnoleg, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol. Yn yr hen Went, mae Athrawon Bro wedi rhoi cymorth i raglen Gymraeg ddwys i ddisgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo un o'i

[43] Theatr Arad Goch

ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, gyda'r nod o alluogi disgyblion i astudio rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.2.10 Er bod gwaith Athrawon Bro yn hanesyddol wedi canolbwyntio'n bennaf ar Gyfnod Allweddol 2, roedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi cyfle i Athrawon Bro gyflwyno'r cysyniad o ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu ac addysgu. Bu timau Athrawon Bro yn gyflym yn eu hymateb gan gynhyrchu adnoddau a gynlluniwyd ar gyfer eu defnyddio gan ymarferwyr Cyfnod Sylfaen (athrawon a chymhorthwyr addysgu a dysgu) a oedd yn cynnwys rhai sydd ddim â fawr iawn o afael ar y Gymraeg. Yn ogystal â chynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu, mae Athrawon Bro wedi ymwneud â hyfforddi staff Cyfnod Sylfaen, yn eu hysgolion a thu hwnt. Dywedodd rhai cyfranwyr fod y ffocws a roddodd Athrawon Bro i'r Cyfnod Sylfaen dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael effaith amlwg gadarnhaol ar sgiliau iaith disgyblion ail iaith wrth iddynt ddod i Gyfnod Allweddol 2, i'r graddau y bu'n bosibl newid ffocws addysgu ym Mlynyddoedd 3 a 4 i ddarllen ac ysgrifennu oherwydd fod gan y disgyblion y sylfaen angenrheidiol mewn Cymraeg llafar. Mae hyn, wrth gwrs, yn rhoi pwysau ar ysgolion i sicrhau bod ganddynt y gallu i ddatblygu sgiliau Cymraeg (fel ail iaith) disgyblion ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

4.2.11 Yn fwy diweddar, mae Athrawon Bro mewn llawer o ardaloedd wedi cynhyrchu adnoddau ail iaith a gynlluniwyd i gyd-fynd â Chwricwlwm 2008 (yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau meddwl, sgiliau cyfathrebu ac ati) eto i'w defnyddio gan ymarferwyr heb lawer o Gymraeg. Trafodir natur yr adnoddau a gynhyrchwyd yn fanylach yn adran 5.6 ond mae'n werth nodi yma i dimau Athrawon Bro fuddsoddi cryn dipyn o amser dros ddwy neu dair blynedd nid yn unig yn datblygu'r adnoddau hyn, ond hefyd yn darparu cyrsiau HMS a hyfforddiant yn y gweithle i alluogi ymarferwyr i'w defnyddio'n effeithiol.

4.2.12 Yn gysylltiedig â hyn, mae Athrawon Bro mewn llawer o ardaloedd wedi ceisio hyrwyddo'r defnydd o 'Gymraeg achlysurol' (hynny yw, geiriau a

phatrymau syml pob dydd) ac wedi ymestyn eu cefnogaeth i gymhorthwyr addysgu a staff gweinyddol a gwasanaeth ysgolion. Mae hyn, wrth gwrs, yn cyd-fynd ag ymdrechion i greu ethos mwy Cymreig o fewn ysgolion. Mewn rhai ardaloedd, bu timau Athrawon Bro yn allweddol yn y gwaith o helpu ysgolion i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ymestyn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a chyfathrebu. Nodwyd bod Awdurdodau Lleol megis Conwy a Sir Benfro yn gwahodd cyrff llywodraethu i hyrwyddo a monitro'r lefel o 'ddwyieithrwydd' a sicrhawyd o fewn ysgolion unigol.

4.2.13 Dywedwyd gan Ymgynghorwyr y Gymraeg ac Athrawon Bro fod nifer fach o ymarferwyr wedi bod yn eithaf anfodlon gyda defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a chyfathrebu oherwydd ei fod yn rhoi baich sylweddol arnynt hwy fel unigolion. Mewn gwirionedd, roedd yn golygu bod angen iddynt ddatblygu sgiliau iaith yn gyflym iawn, yn ogystal ag ymgyfarwyddo â datblygiadau yn y cwricwlwm i aros 'un cam o flaen' disgyblion. Yn yr un modd, teimlid gan rai Ymgynghorwyr y Gymraeg fod rhai penaethiaid ysgol yn 'dirprwyo gormod ar y Gymraeg i arweinwyr pwnc' yn hytrach na'u bod hwy eu hunain yn cymryd perchnogaeth ar hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn eu hysgolion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn adlewyrchu agweddau tuag at y Gymraeg yn gyffredinol.

4.2.14 Credid yn gyffredinol fod proffil y Gymraeg 'yn llawer uwch nawr nag oedd pan gychwynnais [gweithio fel athro] flynyddoedd lawer yn ôl' a chredai Ymgynghorwyr y Gymraeg ac Athrawon Bro bod ymarferwyr wedi dod yn sylweddol fwy ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd dros y deng mlynedd diwethaf. Yn wir, dywedwyd bod nifer o athrawon yn cydnabod manteision dwyieithrwydd ar gyfer eu datblygiad gyrfa eu hunain. Dywedwyd bod hyn i raddau helaeth oherwydd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond hefyd oherwydd 'efengylu' brwdfrydig a chyson Athrawon Bro. Yn gysylltiedig â hyn, tueddai Athrawon Bro sy'n gwasanaethu ardaloedd lle siaredir llai o Gymraeg i gredu fod cyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith wedi gwella - 'pan

gychwynnais, fe wnaethon ni baratoi deunyddiau oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer blwyddyn chwech. Rydyn ni'n dal i'w defnyddio nawr, ond yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn'.

4.2.15 Ystyrir bod cyflwyno asesu disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn ddiweddar yn bendant iawn yn 'newid y gêm', hyd yn oed yn yr ysgolion hynny lle na chafodd addysgu'r Gymraeg hyd yma ei ystyried fel blaenoriaeth. Dywedwyd na fedrid mwyach ei 'ysgubo dan y carped'. Yn ystod 2008/10, bu Athrawon Bro yn y rhan fwyaf o ardaloedd wrthi'n helpu ysgolion i asesu cyrhaeddiad disgyblion perthnasol yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn aml wedi golygu datblygu systemau a chynhyrchu adnoddau i alluogi ymarferwyr sydd ddim yn rhugl yn y Gymraeg eu hunain i asesu lefelau iaith disgyblion (caiff yr adnoddau hyn eu trafod ymhellach isod) yn ogystal â hyfforddi a llywio ymarferwyr drwy'r broses asesu. Rhagwelir y bydd angen cymorth parhaus ar ysgolion i asesu lefelau iaith disgyblion, er ei bod yn sicr y bydd y systemau a roddwyd ar waith eleni yn llacio'r gofynion ar amser Athrawon Bro yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod y broses safoni ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn gyson o fewn ac ar draws pob ardal Awdurdod Lleol, nododd rhai cyfranwyr y dylai canllawiau clir a hyfforddiant penodol fod ar gael ar lefel genedlaethol.

4.2.16 Yn gysylltiedig â'r asesiad o lefelau iaith disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mae Athrawon Bro yn y rhan fwyaf o ardaloedd wedi bod yn ymwneud, i raddau gwahanol, â chynorthwyo'r broses o sicrhau dilyniant ieithyddol priodol disgyblion wrth iddynt bontio i addysg uwchradd. Credai Athrawon Bro ac ymarferwyr cynradd bod athrawon Cyfnod Allweddol 3 yn aml yn credu bod lefelau iaith disgyblion ail iaith yn is nag y maent mewn gwirionedd ac, o ganlyniad, bod tueddiad ym Mlwyddyn 7 i fynd dros dir a droediwyd eisoes gan ddisgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6. Dywedwyd bod hyn yn rhwystro cynnydd disgyblion ac yn arwain at y ffaith bod llawer yn diflasu a cholli diddordeb mewn dysgu Cymraeg. Er mwyn sicrhau parhad mewn addysgu Cymraeg fel iaith, mae Athrawon

Bro mewn nifer o ardaleodd wedi hwyluso proses o 'safoni' asesiadau ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 o lefelau ail iaith. Gwnaed hyn drwy weithio gydag ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i adolygu samplau o waith a wnaed gan ddisgyblion yn ystod eu cyfnod ym Mlwyddyn 6 a thrafod y cwricwlwm y rhoddwyd sylw iddo yn ystod Cyfnod Allweddol 2. Dengys hyn natur cynyddol ymgynghorol rôl Athrawon Bro a gwelai nifer fawr o gyfranwyr hyn fel rhywbeth y byddai angen iddo barhau dros y flwyddyn nesaf o leiaf.

4.2.17 Mae Athrawon Bro yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn cymryd rhan wrth drefnu, ac mewn rhai achosion, gyflwyno gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith. Mae hyn yn cynnwys trefnu cyrsiau preswyl i ddisgyblion yng ngwersylloedd yr Urdd; trefnu digwyddiadau fel Eisteddfodau a Jamborîs, trefnu cystadlaethau rhwng ysgolion (megis y Cwis Llyfrau) ac yn y blaen.

4.2.18 Hefyd, mae Athrawon Bro mewn dau Awdurdod yn cyfrannu at raglenni addysg drochi a dysgu iaith trwy ddulliau dwys (prosiect a reolir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ond a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru). Fel arfer, mae hyn yn golygu bod Athrawon Bro yn cymryd rhan wrth gyflwyno cyrsiau trochi dwys chwech wythnos yn y Gymraeg ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith, ond sy'n ystyried symud i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, p'un ai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog[44].

4.2.19 Yn fwy diweddar, bu Athrawon Bro yng Ngheredigion yn arbrofi gyda darparu rhaglenni trochi wythnos o hyd, sydd wedi eu cysylltu gyda digwyddiadau megis y Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi, mewn ysgolion cynradd dethol. Mae'r rhaglenni cryno hyn yn adeiladu ar ac yn atgyfnerthu cyrsiau trochi hirach (6 wythnos o hyd) a gyflwynir mewn ysgolion sydd ddim yn rhai cyfrwng Cymraeg yn nhymor yr haf.

[44] Cynhaliwyd gwerthusiad ar wahân ar gynlluniau peilot addysgu trochi ac addysgu dwys. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yn 2009

4.2.20 Wrth gwrs, mae'r gwasanaethau a drafodir uchod yn ymwneud gan fwyaf ag ysgolion lle caiff y Gymraeg ei dysgu'n bennaf fel ail iaith. Y disgwyliad cyffredinol yw fod gan staff ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd ac uwchradd y sgiliau sydd eu hangen yn y Gymraeg i addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y sail hon, mae mwyafrif yr Awdurdodau Lleol yn clustnodi llai o adnoddau i gefnogi'r sector cyfrwng Cymraeg, gyda gwasanaeth yn gyffredinol wedi ei gyfyngu i wasanaeth staff ymgynghori a chyfleoedd HMS (gweler adran 5.7).

4.2.21 Lle rhoddir cefnogaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg, fe'i darperir gan Athrawon Bro neu staff penodol Gwasanaeth Gwella Ysgolion (Ymgynghororwyr y Gymraeg fel arfer). Mae'r gweithgareddau a gynigir gan yr unigolion hyn yn dangos natur cynyddol ymgynghorol rôl Athrawon Bro sydd yn cynnwys:

- gweithio gydag arweinwyr pwnc i ddatblygu strategaethau ysgol gyfan a modelau iaith (geirfa a chystrawen) i'w defnyddio ar draws yr ystod o feysydd pwnc;
- trafod ac arddangos arfer dda wrth addysgu iaith mewn ysgolion sy'n dioddef o gyfraddau cyrhaeddiad siomedig yn y Gymraeg fel mamiaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn cynnwys dangos sut i addysgu a 'drilio' disgyblion mewn geirfa a phatrymau iaith neilltuol er mwyn gwella gafael disgyblion ar yr iaith. Mae un neu ddau Awdurdod Lleol wedi canolbwyntio'r math yma o gymorth yn neilltuol ar fechgyn sy'n tangyflawni;
- cyflwyno gwersi ochr yn ochr ag athrawon dosbarth i grwpiau targed o ddisgyblion. Mae'r gwasanaeth hwn yn ymestyn i ddisgyblion o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg lle teimlir bod eu defnydd o iaith yn 'fratiog'. Mewn dau Awdurdod, symudodd ffocws yr addysgu hwn o lefaru yn nhymor yr hydref i ddarllen yn nhymor y gwanwyn ac wedyn i ysgrifennu yn nhymor yr haf. Nodwyd bod gorgyffwrdd rhwng rôl Athrawon Bro ac Ymgynghorwyr Llythrennedd mewn rhai ardaloedd;
- datblygu sgiliau darllen uwch (yn enwedig ymysg bechgyn) er mwyn gwella sgiliau sylfaenol;

- gweithio gydag ysgolion i sicrhau pontio effeithlon disgyblion i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn safoni asesiadau disgyblion a hwyluso trafodaethau rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn ogystal â threfnu 'sesiynau blasu' ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ym Môn a Gwynedd, 'Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol', yn hytrach nag Athrawon Bro fel y cyfryw[45], sy'n gyfrifol am sicrhau bod disgyblion yn dilyn llwybrau ieithyddol addas wrth bontio i addysg uwch;
- darparu cefnogaeth cyn arolwg a helpu ysgolion i fynd i'r afael â meysydd gwan;
- trefnu gweithgareddau allgyrsiol i 'drochi' disgyblion yn y Gymraeg, ac yn bennaf gweithgareddau a gyflwynir mewn un o dri safle mudiad yr Urdd;
- trefnu cwis llyfrau blynyddol;
- creu a chyflwyno adnoddau perthnasol i gefnogi gweithgareddau iaith; ac
- Arsylwi a mentora athrawon cynradd sydd newydd gymhwyso.

4.2.22 Mae'r gwasanaeth y mae Athrawon Bro yn ei gynnig i ysgolion uwchradd yn tueddu i fod yn weddol gyfyngedig, yn bennaf oherwydd fod gan ysgolion uwchradd adrannau Cymraeg arbenigol. Os daw Athrawon Bro i gysylltiad ag ysgolion uwchradd o gwbl, mae'n tueddu i fod yn gysylltiedig â phontio ieithyddol disgyblion o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Eithriadau i hyn yw:

- cyswllt Athrawon Bro â disgyblion sy'n cymryd rhan mewn Cynlluniau Trochi;
- Athrawon Bro sy'n gysylltiedig â Chanolfannau Hwyrddyfodiaid yn cefnogi darparu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion uwchradd y dalgylch;
- Athrawon Bro mewn un ysgol uwchradd yn Sir Benfro; a
- unig Ganolfan Hwyrddyfodiaid Cymru i ddisgyblion ysgol uwchradd yng Ngwynedd.

[45] Caiff Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol Môn a Gwynedd eu hariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn ffordd debyg iawn i Athrawon Bro

4.2.23 Roedd cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol a staff ysgolion yn uchel iawn eu clod am frwdfrydedd ac egni Athrawon Bro wrth hyrwyddo ac addysgu'r iaith Gymraeg. Yn wir, dywedwyd gan Estyn (2003) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996) fod Athrawon Bro yn greiddiol ar gyfer helpu ysgolion i weithredu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymraeg ail iaith. Daeth Estyn hefyd i'r casgliad fod Athrawon Bro yn cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau athrawon ystafell ddosbarth tuag at y Gymraeg ac yn helpu i godi safonau yn y Gymraeg, er bod y Gymraeg fel ail iaith yn parhau yn un o bynciau Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol sydd â'r safonau isaf. Soniodd y ddau adroddiad am rôl werthfawr iawn Athrawon Bro wrth arddangos a lledaenu dulliau da o addysgu Cymraeg fel ail iaith.

4.2.24 Serch hynny, dywedodd nifer fach o randdeiliaid fod y gwasanaeth Athrawon Bro yn 'blastr sy'n cuddio'r briw', sef diffyg gallu o fewn ysgolion i addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysg cyfrwng Cymraeg, 'yn hytrach na bod yn rhan o'r iachâd'. Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid cydnabod nad ydynt ond rhan o'r 'cymysgedd' o ymyriadau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad disgyblion. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth yn weddol gyfyngedig, a dadleuodd rhai bod angen diwygiad llawer mwy sylfaenol i sicrhau bod gan ymarferwyr o fewn y system y sgiliau angenrheidiol i addysgu Cymraeg fel pwnc a'i defnyddio fel cyfrwng ar gyfer pynciau eraill. Fel y dywedodd pennaeth un ysgol uwchradd, 'rwy'n cytuno gyda'r athroniaeth tu ôl i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg … ond ei wireddu yw'r broblem achos nid yw'r boblogaeth o athrawon [cymwys] ar gael'. Dadleuodd rhai cyfranwyr dros gael arweiniad polisi cryfach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach na chynlluniau dilynol i fynd i'r afael â gwendidau o fewn rhannau o'r system presennol. Yn wir, ystyriai rhai bod pasio Mesur Iaith Gymraeg (2010) a chyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn gatalyddion allweddol i sicrhau newidiadau yn y cyswllt hwn.

4.2.25 Er ei fod tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon, dadleuodd rhai rhanddeiliaid fod angen rhoi ystyriaeth ofalus i sut y medrai darpar-athrawon gaffael y sgiliau iaith a methodolegol sydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg. Yn y tymor hir, credid y dylai Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau a gaiff ei lenwi ar hyn o bryd gan Athrawon Bro.

## 4.3 ADDYSGU'R GYMRAEG I 'HWYRDDYFODIAID'

4.3.1 Mae 'Canolfannau Hwyrddyfodiaid' ar gael o fewn ardaloedd wyth o Awdurdodau Lleol. Pwrpas y canolfannau hyn yw galluogi rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg ac sy'n symud i ardaloedd neilltuol, i ddysgu'r Gymraeg yn gyflym fel y medrant ymdopi gydag addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn eu hysgolion newydd. Mae Tabl 4.1 islaw'n crynhoi'r math o brofiad trochi a gynigir ym mhob sir.

4.3.2 Mae pob un ond tair[46] o'r ysgolion cynradd ym Môn a Gwynedd yn cael eu cyfrif yn rhai 'dwyieithog' a'r dybiaeth ddechreuol yw y bydd disgyblion yn astudio'r Gymraeg fel mamiaith ac yn astudio pynciau eraill o fewn y cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Y disgwyliad yw y bydd pob disgybl yn cyrraedd o leiaf 'lefel 3 cadarn' yn y Gymraeg fel iaith gyntaf erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 ac yn parhau i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf i Gyfnod Allweddol 3. Er mwyn sicrhau bod ddisgyblion sy'n symud i'r ardal heb fawr neu ddim gwybodaeth o'r Gymraeg yn caffael y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen i ddilyn addysg hollol ddwyieithog a chymhathu'n llwyddiannus i gymunedau ysgol, cânt eu 'trochi' yn y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Fel arfer caiff y rhai sy'n cyrraedd cyn iddynt fod yn saith oed eu 'trochi' o fewn eu hysgol, tra bod newydd-ddyfodiaid yng Nghyfnod Allweddol 2 yn mynychu Canolfannau Hwyrddyfodiaid, fel arfer yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ardal. Caiff yr ychydig sydd ddim yn cyrraedd lefel 3 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 eu cefnogi i astudio'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgol uwchradd.

[46] Ysgol Our Lady's, Bangor, Ysgol Santes Fair yng Nghaergybi ac Ysgol Caergeiliog yn y Fali

4.3.3 Yn 2004, sefydlwyd unig Ganolfan Hwyrddyfodiaid uwchradd Cymru yng Ngwynedd i wasanaethu disgyblion Cyfnod Allweddol 3 di-Gymraeg sy'n symud i fyw i ardaloedd deheuol a gorllewinol y sir. Mae'r Ganolfan yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau iaith disgyblion Blwyddyn 7, er y darperir hefyd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9, os yw'r rhifau'n caniatáu.

4.3.4 Mae Conwy'n gweithredu un Ganolfan i Hwyrddyfodiaid tebyg i'r model cynradd a ddefnyddir ym Môn a Gwynedd. Ynghyd â hyn, mae'r Awdurdod Lleol yn noddi ymagwedd llai dwys mewn Canolfan 'loeren' sy'n gweithredu fel a phan fo angen mewn rhan wledig iawn o'r Sir, lle mae nifer y disgyblion yn is a lle mae'n anos rhagweld y galw. I bob diben, caiff y baich o ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan 'loeren' ei rannu rhwng y Ganolfan ac ysgolion y disgyblion.

4.3.5 Mae Conwy hefyd yn rhedeg canolfan iaith 'loeren' sy'n canolbwyntio ar gryfhau gallu siaradwyr iaith gyntaf neu ddysgwyr galluog yn y Gymraeg mewn ardal lle mae'r Saesneg yn tueddu i fod yn gryfach iaith. Gwneir hyn er mwyn amddiffyn nodweddion ieithyddol ysgolion traddodiadol Gymraeg mewn ardaloedd lle mae'r iaith bellach yn fwy bregus.

4.3.6 Agorodd y Ganolfan Hwyrddyfodiaid yn Sir Ddinbych ym mis Medi 2009[47] ac mae'n darparu rhaglen drochi dridiau yr wythnos ar gyfer disgyblion oedran cynradd dros un flwyddyn academaidd gyfan. Anfonir adroddiadau wythnosol ar eirfa a phatrymau brawddegau at ysgolion y disgyblion, ynghyd ag adroddiadau ar y cynnydd a wnaed. Mae hyn yn atgyfnerthu'r hyn a ddysgodd disgyblion gan eu hathrawon a'u cyd-ddisgyblion.

[47] Er bod Canolfan symudol ar gael yn y Sir cynt

*Tabl 4.1: Amlinelliad o Raglenni Trochi a gynigir mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid.*

| Awdurdod Lleol | Nifer y Canolfannau | Grwpiau Blwyddyn a Wasanaethir | Hyd y Cyfnod Trochi | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 2 | 3-6 | 5 diwrnod yr wythnos am 1 tymor | Mae un Ganolfan ar agor drwy'r flwyddyn, a'r llall ar agor yn ystod tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn yn unig. |
| Gwynedd | 4 | 3-6 | 5 diwrnod yr wythnos am 1 tymor | Mae pedair Canolfan gynradd ar agor drwy'r flwyddyn, yn dibynnu ar y galw. Lle mae'r galw'n is, mae un Ganolfan yn cau yn ystod tymor yr haf. |
| | 1 | 7 | 5 diwrnod yr wythnos am 8 wythnos | Mae un Ganolfan uwchradd ar agor drwy'r flwyddyn. |
| Conwy | 1 | 3-6 | 5 diwrnod yr wythnos am 1 tymor | Mae'r Ganolfan ar agor drwy'r flwyddyn. |
| | 1 | | 2 ddiwrnod yr wythnos am 2 dymor | Canolfan 'loeren' sy'n agor fel a phan fo angen |
| | 1 | | 2 ddiwrnod yr wythnos am 1 tymor | Canolfan 'loeren' sy'n darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf mewn ardal 'ymylol' |
| Sir Ddinbych | 1 | 2-6 | 3 diwrnod yr wythnos am 3 tymor | Mae'r Ganolfan ar agor drwy'r flwyddyn ac wedi ei lleoli mewn ysgol gynradd. |
| Ceredigion | 6 | 3-6 | 2 ddiwrnod yr wythnos am 3 tymor | Canolfannau o fewn ysgolion uwchradd.<br>Pedair o'r chwe Chanolfan fu'n gweithredu yn 2009/10.<br>Bu Athrawon Bro o Ganolfannau nad oedd disgyblion ynddynt yn cefnogi disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. |
| Sir Gaerfyrddin | 6 | 3-6 | 4 diwrnod yr wythnos am 2 dymor | Canolfannau mewn ysgolion uwchradd ac mewn rhai achosion, Athrawon Bro hefyd yn cefnogi disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 sy'n gwneud elfennau o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg.[48] |
| Sir Benfro | 2 | 3-6 | 2 ddiwrnod yr wythnos am 2 dymor | Lleolwyd mewn ysgolion uwchradd (un cyfrwng Cymraeg ac un dwyieithog) ond yn darparu ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2. |
| Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ar y cyd | 1 | 1-6 | 4 diwrnod yr wythnos am 1 tymor ac yna 3 diwrnod yr wythnos am ½ tymor[49] | Lleolwyd yn Ysgol y Wern Ystalyfera |

Ffynhonnell:
Data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol

[48] E.e. Hanes, Daearyddiaeth, Mathemateg a Gwyddoniaeth
[49] Newidiwyd patrwm presenoldeb disgyblon o 3 diwrnod am 2 dymor mewn ymateb i argymhellion Estyn

4.3.7 Mae'r holl Ganolfannau Hwyrddyfodiaid sy'n gwasanaethu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro oll ar safle ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, fel rheol yr ysgolion y mae'r disgyblion dan sylw yn gobeithio mynd iddynt. Eto, nod y Canolfannau hyn yw rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddisgyblion sy'n symud i gymunedau Cymraeg i fyw i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, ond fel mae Tabl 4.1 uchod yn dangos, mae'r rhaglen a gynigir gan y tair sir yn amrywio o ran dwysedd a hyd.

4.3.8 Cynigir cyfleoedd i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot i fynychu Canolfan Hwyrddyfodiaid a'i lleolir mewn ysgol gynradd yn Abertawe. Fel Canolfannau Hwyrddyfodiaid eraill, gweithia'r Ganolfan hon yn agos gyda'r ysgol ble ei lleolir, gyda disgyblion y Ganolfan yn cymryd rhan mewn gwasanaethau boreol, gwersi canu, addysg gorfforol a digwyddiadau arbennig. Yn ogystal, darparir sesiynau iaith i ddisgyblion y Ganolfan gan ddisgyblion y chweched dosbarth mew ysgol uwchradd gyfagos

4.3.9 Er bod asesu effeithlonrwydd cymharol gwahanol fodelau Canolfannau Hwyrddyfodiaid y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon, nodwn fod Estyn, yn ei Adolygiad o Wasanaethau Athrawon Bro yn 2003, wedi canmol yr agwedd fwy dwys a ddefnyddir ym Môn, Gwynedd a Dyffryn Conwy. Yn wir, rhoddwyd ystyriaeth i fabwysiadu agwedd fwy dwys yng Ngheredigion ond rhoddwyd y gorau i unrhyw ddatblygiad o'r fath oherwydd pryderon am gynaliadwyedd ysgolion gwledig bach pe byddai disgyblion yn cael eu symud oddi yno am gyfnodau hir.

4.3.10 Mae Canolfannau Hwyrddyfodiaid yng Ngwynedd a Môn wedi tueddu i fod yn llawn, gyda rhestr aros ar achlysuron. Ar y llaw arall, gwelodd y rhai yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ostyngiad amlwg yn y galw am leoedd yn ddiweddar. Cydnabuwyd y byddai angen adolygu strwythur Canolfannau Hwyrddyfodiaid os yw'r tueddiad hwn yn parhau. Yr ymateb tymor byr i'r diffyg galw yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, fu defnyddio Athrawon Bro sy'n gweithio mewn Canolfannau

Hwyrddyfodiaid i gefnogi disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel mamiaith i wella eu sgiliau sylfaenol ac i gefnogi disgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn yr ysgolion lle lleolir y Canolfannau wrth astudio gwahanol elfennau o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.3.11 Mynegwyd pryder am yr hyn a welwyd fel 'camddefnydd' o Ganolfannau sydd ddim yn llawn gan nifer fach o ysgolion cynradd sy'n methu cymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad ieithyddol eu disgyblion. Bu enghreifftiau o ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid gyda eu sgiliau yn y Gymraeg yn parhau'n wan ar ôl cyfnod o drochi yn cael eu hanfon i Ganolfannau am yr eildro.

4.3.12 Mae staff sy'n gweithio mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid hefyd yn darparu gwasanaeth 'ôl-ofal' i ddisgyblion a'u hysgolion nawdd. Mae union natur y gwasanaeth hwn yn amrywio o Ganolfan i Ganolfan, yn dibynnu i raddau helaeth ar lefel y galw am wasanaethau Canolfannau ar unrhyw amser penodol. Serch hynny, ystyriwyd bod ôl-ofal yn elfen hollbwysig yn y cyfuniad o Ganolfannau Hwyrddyfodiaid ac yn un yr hoffai rhai cyfranwyr ei gweld yn cael ei hymestyn, hyd yn oed mewn ardaloedd megis Môn a Gwynedd. Yn wir, mae gan un Awdurdod Lleol gontract gydag un Athrawes Bro ar *sail 'sesiynol' fel* bod modd addasu natur a lefel y gwasanaeth a gynigir, yn dibynnu ar yr angen. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae gwasanaethau ôl-ofal yn cynnwys:

- paratoi adroddiadau i ysgolion ar gynnydd disgyblion unigol;
- paratoi 'pecyn ôl-ofal' (ym Môn, Gwynedd, Dinbych a Chonwy) sy'n nodi'r eirfa a'r patrymau iaith y rhoddwyd sylw iddynt yn y Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Mae hyn yn galluogi athrawon yn ysgolion y disgyblion i atgyfnerthu ac adeiladu ar y sgiliau iaith y mae disgyblion yn eu hennill yn ystod eu cyfnod mewn Canolfannau iaith;
- ymweliadau ag ysgolion y disgyblion yn y cyfnod yn syth ar ôl eu presenoldeb mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid. Diben yr ymweliadau hyn yw cadw momentwm drwy ymestyn geirfa rhai a fu yn y Canolfannau neu ail-edrych ar batrymau iaith, er enghraifft.

- o ym Môn a Gwynedd, olrhain cynnydd ieithyddol disgyblion yn ystod Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, gan ddefnyddio data a dderbyniwyd gan Cynnal. Caiff hyn ei glymu i'r broses o sicrhau cynnydd ieithyddol addas yn ystod y cyfnod pontio.

4.3.13 Mewn nifer o Awdurdodau Lleol, mae staff Canolfannau Iaith yn ceisio ymgysylltu gyda theuluoedd disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid er mwyn gwella dealltwriaeth rhieni o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, a lliniaru unrhyw bryderon sydd ganddynt sy'n deillio o'r ffaith bod eu plant yn cael addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Maent hefyd yn ceisio sicrhau bod rhieni yn cefnogi eu plant wrth ddysgu Cymraeg ac yn eu helpu i integreiddio'n llwyddiannus i gymunedau lleol. Mae natur y gweithgareddau a gynhelir yn amrywio ymysg yr Awdurdodau, ond maent yn cynnwys, er enghraifft:

- o cynnal digwyddiadau i gyflwyno rhieni a disgyblion i'r Gymraeg, gan wahodd rhanddeiliaid eraill;
- o annog teuluoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol a *sesiynau 'blasu iaith' a drefnir* gan Fentrau Iaith;
- o annog cyfranogiad yng ngweithgareddau'r Urdd;
- o rhyngweithio gyda darparwyr cyrsiau Cymraeg i Oedolion ac annog cyfranogiad mewn cyrsiau Cymraeg i'r Teulu; a
- o defnyddio adnoddau a ddatblygwyd gan staff Canolfannau yng Ngwynedd a Môn i gyflwyno 'rhaglen cymhathu rhieni' (ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Phenfro), gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn yr ardal rai blynyddoedd yn ôl. Cefnogwyd y gwaith datblygol a'r rhaglenni cymhathu gan arian prosiect[50] Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ac nid arian y grant ar gyfer gwasanaeth yr athrawon bro).

4.3.14 Roedd mwyafrif helaeth y cyfranwyr o Môn a Gwynedd yn frwdfrydig am waith y Canolfannau Hwyrddyfodiaid, gyda nifer yn dweud eu bod yn hanfodol i wireddu polisïau cymharol gadarn y ddau Awdurdod Lleol ar gyfer yr iaith Gymraeg ac, yn wir, i gadw nodweddion ieithyddol ysgolion lleol yn wyneb mewnfudo sylweddol dros y pymtheg mlynedd ddiwethaf

[50] Hynny yw, nid arian i Awdurdodau Lleol i Hyrwyddo Addysg Gymraeg a ddefnyddiwyd

neu fwy. Dywedodd ymarferwyr o fewn ysgolion yr ymwelwyd â hwy fod Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn hynod effeithiol, gydag un yn dweud eu bod yn ‘gwneud gwyrthiau gyda’r plant sy’n mynd yno ... mae’r gwahaniaeth yn sgiliau disgyblion yn y Gymraeg ar ôl bod ynddynt yn rhyfeddol!’

4.3.15 Mae staff dwy o’r Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn cyfrannu at raglenni addysg drochi a dysgu iaith trwy ddulliau dwys (gweler paragraff 4.6.17 uchod). Fel arfer, mae hyn yn digwydd yn ystod tymor yr haf, pan nad yw pob Canolfan Hwyrddyfodiaid ar agor.

4.3.16 Mabwysiadwyd dulliau gwahanol gan rai awdurdodau sy’n galluogi disgyblion di-Gymraeg sy’n symud i ardaloedd Cymraeg ddilyn addysg cyfrwng Gymraeg. Ym Mhowys, er enghraifft, mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy’n derbyn mewnfudwyr di-Gymraeg yn talu athro a chymhorthydd dosbarth pwrpasol i ddarparu cefnogaeth iaith ychwanegol i’r disgyblion dan sylw am bum awr yr wythnos dros gyfnod o ddwy flynedd. Caniatâ hyn i’r awdurdod ymateb yn hyblyg i alw a fu, hyd yn hyn, yn fychan, dros ardal ddaearyddol eang. Dibynna Awdurdodau eraill (e.e. Fflint a Wrecsam) ar raglenni addysg drochi a dysgu iaith trwy ddulliau dwys i gynnig cyfleoedd i fewnfudwyr di-Gymraeg fanteisio ar addysg cyfrwng Gymraeg ochr yn ochr â dysgwyr eraill.

## 4.4 DATBLYGU ADNODDAU ADDYSGU A DYSGU

4.4.1 Dros y blynyddoedd, mae timau Athrawon Bro ar draws Cymru wedi buddsoddi llawer o amser yn datblygu adnoddau addysgu, dysgu ac asesu i’w defnyddio gan ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth. Credai nifer fach o randdeiliaid efallai y treuliwyd ‘gormod’ o amser ar ddatblygu adnoddau, ar draul cymorth ymarferol i athrawon yn yr ystafell ddosbarth. Yn ddieithriad, y timau Athrawon Bro sy’n penderfynu ar natur yr adnoddau sy’n cael eu datblygu, gan ddefnyddio adborth o ysgolion a chydweithwyr o fewn Timau Gwella Ysgolion. Mae

enghreifftiau o gydweithredu ar ddatblygu adnoddau rhwng Awdurdodau Lleol tu hwnt i'r trefniadau ffurfiol rhwng Môn a Gwynedd, yr awdurdodau a wasanaethir gan ESIS a'r rhai sy'n aelodau o gonsortiwm Gwent. Ceir cydweithio rhwng Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint ac, i raddau llai, rhwng Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Caiff pob Awdurdod Lleol hefyd ei gynrychioli ar wahanol weithgorau CBAC, sy'n sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i adnoddau a gaiff eu datblygu'n ganolog wrth gynllunio gweithgareddau datblygu adnoddau lleol.

4.4.2 Mae'r adnoddau a gynhyrchwyd yn amrywiol ac mae rhai timau Athrawon Bro wedi adeiladu catalogau sylweddol o ddeunyddiau dros y blynyddoedd. Mae enghreifftiau o'r adnoddau a ddatblygwyd yn cynnwys:

- cynlluniau gwersi;
- taflenni gwaith;
- cardiau fflach;
- gemau;
- adnoddau sain a fideo i gynorthwyo gydag addysgu ynganiad cywir. Credai ymarferwyr di-Gymraeg y buom yn siarad â hwy fod yr adnoddau hyn yn neilltuol o ddefnyddiol;
- adnoddau rhyngweithiol i'w defnyddio ar fyrddau gwyn electronig. Rhoddwyd pwyslais sylweddol ar ddatblygu adnoddau electronig/rhyngweithiol dros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf. Ar y cyfan, cynhyrchir adnoddau electronig ar ffurf 'Digital Versatile Disc' (DVD) sy'n cael eu llwytho ar wefannau Awdurdodau Lleol;
- adnoddau i alluogi asesiad disgyblion, sy'n cynnwys 'pecynnau proffil disgyblion' a gynllunnir i helpu hyrwyddo dilyniant ieithyddol priodol yn ystod y pontio i Gyfnod Allweddol 3;
- rhaglenni dysgu llawn gyda deunyddiau ystafell ddosbarth cefnogol e.e. Cynllun y Llan, a ddatblygwyd dros nifer o flynyddoedd gan staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid ym Môn, Gwynedd a Chonwy; a
- pecynnau addysgu (gweler yr astudiaeth achos isod).

***Astudiaeth Achos: Datblygu Adnoddau Addysgu a Datblygu ym Mhowys***

Yn ystod 2009/10, bu grŵp o Athrawon Bro ym Mhowys yn gweithio ar ddatblygu pecyn addysgu i'w ddefnyddio gan ymarferwyr Cyfnod Sylfaen heb fawr iawn o wybodaeth o'r Gymraeg. Mae'r pecyn yn cynnwys 12 uned waith thematig sy'n ategu at Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru, ac mae'n cynnwys ffeil A4 sy'n cynnwys cynlluniau gwersi, amrywiaeth o ddeunyddiau cefnogi (a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion disgyblion o wahanol alluoedd) a chyfarwyddiadau manwl ar sut i ddefnyddio'r adnoddau. Gwelir y pecyn fel rhywbeth hylaw a rhwydd i'w ddefnyddio y gall athrawon di-Gymraeg gael mynediad iddo ar unrhyw adeg.

Y bwriad yw defnyddio'r pecyn yn ystod digwyddiadau hyfforddiant i'w cynnal ym mis Medi 2010. Mae'r Awdurdod Lleol wedi neilltuo cyllid i dalu am gostau cyflenwi fel bod ysgolion mewn sefyllfa i ryddhau staff i fynychu'r digwyddiadau hyn. Bydd aelodau'r tîm Athrawon Bro yn cyflwyno'r pecyn i ymarferwyr ac yn dangos sut y medrid ei ddefnyddio. Mae'r Athrawon Bro yn ymweld â phob ysgol ar ôl y digwyddiadau hyfforddi i drafod y pecyn yn fanylach a chyfarwyddo staff perthnasol ar sut i'w ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r tîm yn bwriadu datblygu ail becyn, i'w ddefnyddio gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2, yn ystod 2010/11. Yn y cyfamser, rhoddir ystyriaeth i roi'r pecyn cyntaf a gynhyrchwyd ar wefan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (GCaD[51]) fel y medrir ei rannu tu hwnt i ffiniau Powys.

4.4.3 Beirniadwyd rhai o'r adnoddau a gynhyrchwyd am beidio canolbwyntio digon ar ddatblygu sgiliau iaith disgyblion. Dywedodd un cyfrannwr fod rhai ymarferwyr wrth ddatblygu adnoddau yn 'cymryd themâu fel eu man cychwyn ... ond ymddengys fod athroniaeth dysgu iaith wedi mynd y tu hwnt iddynt ... fel nad yw'r strwythur yn addas' yn y deunyddiau a gynhyrchwyd.

[51] Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu: http://www.gcad-cymru.org.uk/

4.4.4 Nid oes amheuaeth y bu Athrawon Bro mewn gwahanol ardaloedd yn cynhyrchu pethau tebyg iawn, gyda phwyslais neilltuol dros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf ar adnoddau a anelwyd at y Cyfnod Sylfaen ac adnoddau yn ymwneud ag asesu disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Roedd cyfranwyr yn agored wrth ddweud ei bod yn debyg fod cryn dipyn o ddyblygu'n digwydd ac nad oes digon o rannu adnoddau. Gwelai nifer o gyfranwyr fantais bosibl mewn cydlynu datblygiad a rhannu adnoddau ar lefel Cymru gyfan, ond roeddent hefyd yn sylweddoli, yn ymarferol, na fyddai gwneud hynny'n beth syml. Dywedwyd bod y rhwystrau i rannu yn cynnwys ymarferwyr yn ffafrio adnoddau gyda blas lleol; yr angen i ddarparu ar gyfer tafodieithoedd lleol (a'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg y gogledd a Chymraeg y de); ofn torri Hawliau Eiddo Deallusol a'r her logistaidd o geisio casglu deunyddiau; cael sicrwydd ansawdd a dosbarthu deunyddiau. Yn wir, yn 2004/05, ceisiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg sefydlu gwefan i rannu adnoddau a gafodd eu cynhyrchu gan Athrawon Bro, ond sefydlwyd GCaD tua'r un pryd, ac er bod adnoddau a gasglwyd fel rhan o'r gweithgaredd hyn wedi cael eu rhoi ar safle GCaD, ni aeth y drafodaeth ymhellach. Erbyn hyn, roedd ymdeimlad fod absenoldeb arweinyddiaeth genedlaethol yn golygu nad yw timau Athrawon Bro mewn gwirionedd yn teimlo rheidrwydd i gydweithio'n agosach i ddatblygu adnoddau addysgu a dysgu.

4.4.5 Serch hynny, fodd bynnag, roedd nifer o dimau Athrawon Bro wedi cynhyrchu adnoddau i'w llwytho ar wefan GCaD ac roedd yn glir bod llawer yn ystyried GCaD erbyn hyn fel ffynhonnell o ddeunyddiau defnyddiol o safon uchel sy'n addas i ymarferwyr ar draws Cymru eu defnyddio.

4.4.6 Bron yn ddieithriad, caiff yr adnoddau a gynhyrchir gan dimau Athrawon Bro eu llwytho ar fewnrwydydd Awdurdodau Lleol ac felly maent yn hygyrch i ymarferwyr ar draws siroedd unigol. Fodd bynnag, nid oedd

tystiolaeth bod unrhyw fonitro o'r graddau y caiff yr adnoddau hyn eu cyrchu a'u defnyddio yn cael ei wneud.

4.4.7 Yn ogystal â'r adnoddau a gynhyrchir ar lefel leol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a GCaD wedi comisiynu datblygu adnoddau megis 'Fflic a Fflac'[52].

4.4.8 Mae staff o fewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn datblygu eu hadnoddau eu hunain hefyd, ac yng ngogledd-orllewin Cymru, datblygwyd cyfres o ddeunyddiau pwrpasol dros y blynyddoedd i ategu at raglen hynod strwythuredig o addysgu.

| |
|---|
| ***Astudiaeth Achos: Cynllun y Llan*** |
| Datblygwyd Cynllun y Llan dros y blynyddoedd gan staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid Môn, Gwynedd a Chonwy, ochr yn ochr â swyddogion Cynnal, sef y cwmni sy'n cefnogi ysgolion Môn a Gwynedd. Rhaglen datblygu sgiliau iaith yw Cynllun y Llan, a defnyddir adnoddau eraill o fewn y Canolfannau i ganolbwyntio ar sgiliau rhifedd, er enghraifft. |
| Mae Cynllun y Llan yn cynnwys deuddeg uned (un yr wythnos) sydd wedi eu seilio ar bentref dychmygol a'i drigolion. Dyluniwyd y cwrs i gyflwyno geirfa a phatrymau iaith yn gynyddol ac i sicrhau bod y rheiny'n cael eu hailadrodd drosodd a throsodd. Yn wir, mae drilio iaith mewn ffyrdd sy'n creu hwyl, er enghraifft trwy adrodd caneuon 'rap', neu trwy chwarae gemau byrfyfyr, yn elfen graidd o'r cwrs. O fewn strwythur pendant Cynllun y Llan, anogir disgyblion i ddefnyddio'r iaith trwy chwarae gemau a chwarae rhan gwahanol gymeriadau o'r pentref mewn sesiynau drama. Yn raddol, datblygir sgiliau ysgrifenedig yn ogystal â sgiliau llafar disgyblion. Defnyddir technegau megis byrddau stori, eto wedi eu seilio ar gymeriadau a lleoliadau o fewn y pentref dychmygol. |

[52] Gwefan arbennig i athrawon a rhieni i ddefnyddio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen yw Fflic a Fflac – gweler: www.**fflicafflac**.com/

Nid yw'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid hyn yn rhannu deunyddiau Cynllun y Llan gydag ysgolion eraill rhag tanseilio eu newydd-deb wrth i ddisgyblion fynychu'r Canolfannau. Hefyd, dyluniwyd y cwrs i'w ddefnyddio i addysgu iaith trwy ddulliau dwys yn hytrach na mewn sefyllfa ddosbarth. Golyga hyn fod angen sgiliau arbenigol i wneud y mwyaf o ddeunyddiau Cynllun y Llan.

Mae staff Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn defnyddio rhai adnoddau GCaD i ategu'r cwrs. Yn wir, dywedwyd bod adnoddau rhyngweithiol ar 'y tywydd, dillad, caffi, bwyd a thai a chartrefi' a gynigir gan GCaD 'fel pe tasent wedi eu dylunio i ffitio hefo Cynllun y Llan'. Yn ogystal, mae staff unigol o fewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn creu rhai o'u hadnoddau eu hunain i ategu at ddeunyddiau Cynllun y Llan, a dadleuwyd ei bod yn *'bwysig fod athrawon yn cael y rhyddid i roi eu stamp eu hunain'* ar y cwrs, er eu bod yn dilyn strwythur penodol y Cynllun.

## 4.5 CYFLWYNO CYRSIAU HYFFORDDIANT MEWN SWYDD

4.5.1 Fel y trafodwyd eisoes, rhoddir cyfran sylweddol o amser Athrawon Bro i ddarparu 'hyfforddiant yn y gweithle' i staff mewn ysgolion. Mae hyn yn bennaf yn golygu trin ymagweddau pedagogaidd, darparu gwersi enghreifftiol, gweithio gydag athrawon yn yr ystafell ddosbarth ac arsylwi ymarferwyr yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.5.2 Yn ogystal â hyn, mae Athrawon Bro mewn rhai Awdurdodau yn gweithio gyda chydweithwyr o Dimau Gwella Ysgolion i ddarparu cyrsiau hyfforddiant 'tu allan i'r gweithle' sy'n ffurfio rhan o ddarpariaeth HMS ehangach yr Awdurdodau Lleol. Y consensws cyffredinol oedd bod y math yma o agwedd yn gweithio'n dda, yn benodol lle mae Athrawon Bro wedi eu hintegreiddio'n fwy cadarn o fewn timau Gwella Ysgolion. Fodd bynnag, fel arfer nid yw cyflwyno cyrsiau HMS yn cael ei ystyried

yn rhan o rôl Athrawon Bro a dywedodd rhai cyfranwyr nad yw cyflwyno hyfforddiant ffurfiol i oedolion at ddant pob un o'r Athrawon Bro.

4.5.3 Ar y cyfan, caiff rhaglenni HMS eu cynllunio a'u cyflenwi ar sail trefniadau'r bartneriaeth a drafodir yn eitem 3.2 uchod. Yn ogystal â hyn, fodd bynnag, mae Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe yn cydweithio drwy 'gonsortiwm' a elwir yn SWAMWAC. Nod SWAMWAC yw dynodi meysydd lle gall y chwech Awdurdod Lleol gydweithio i 'gyflenwi gwell gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc', gyda phwyslais penodol ar systemau ar gyfer cynllunio a datblygu'r gweithlu addysgu. Mae rhai cyrsiau sy'n cael eu cyflwyno gan Athrawon Bro yn yr Awdurdodau Lleol unigol ar agor i staff o Awdurdodau eraill.

4.5.4 Mae awdurdodau eraill yn prynu gwasanaethau neu'n cydweithio mewn ffyrdd mwy cyfyngedig gyda chlystyrau cyfagos. Er enghraifft, mae Cyngor Caerdydd a hefyd Cyngor Bro Morgannwg yn prynu gwasanaethau gan ESIS ac mae Cyngor Wrecsam yn gweithio gyda chonsortiwm Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint i gyflwyno cyrsiau CIMCai[53]. Mae Conwy yn tanysgrifio i elfennau o raglen HMS Cymraeg fel mamiaith Cynnal.

4.5.5 Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn cynnig cyrsiau iaith 'dwys' i ddatblygu sgiliau ieithyddol ymarferwyr heb fawr o Gymraeg. Fel arfer mae'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio ar adnoddau neilltuol a ddatblygwyd neu a addaswyd gan staff Gwasanaeth Ymgynghori a/neu Athrawon Bro ac maent yn aml yn adlewyrchu datblygiadau diweddar yn y cwricwlwm neu ar lefel bedagogaidd. Yn hynny o beth, mae cyrsiau'n cyfuno hyfforddiant iaith a methodoleg ac mae ganddynt y budd ychwanegol o roi cynlluniau gwersi ac adnoddau addysgu parod i ymarferwyr y medrant eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

[53] Cwrs Iaith a Methodoleg Cymraeg ail iaith

4.5.6 Mae hyd cyrsiau iaith dwys yn amrywio o ardal i ardal, gyda Chaerdydd yn cynnig cyrsiau sy'n parhau am 20 diwrnod ac ESIS yn cynnig cyrsiau sy'n parhau am 15 diwrnod ar ddwy lefel. Mae Wrecsam a Phowys yn cynnig cyrsiau sy'n parhau am 10 diwrnod, tra bo Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Bro Morgannwg ac Awdurdodau yr hen Went yn cynnig cyrsiau sy'n parhau am chwe diwrnod[54]. Mae Awdurdodau'r hen Went hefyd yn cynnig cyrsiau wythnos o hyd sy'n canolbwyntio ar iaith addas i athrawon grwpiau oedran penodol. Roedd ymarferwyr yn gyffredinol yn gwerthfawrogi cyrsiau dwys o'r math yma a chredid eu bod yn gwneud llawer i feithrin agweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg ymarferwyr ac yn cynyddu eu parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail achlysurol.

4.5.7 Fodd bynnag, cwestiynai rhai cyfranwyr a oedd cyrsiau o'r fath yn cynnig gwerth am arian, gan nad oeddent yn datblygu sgiliau iaith ymarferwyr i safon ddigonol i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith mewn unrhyw sefyllfa ond mewn ystafell ddosbarth, a hynny ar lefel arwynebol. Fel y dywedodd un cyfrannwr, mae'r strwythurau a'r 'sgriptiau' a gyflwynir ar y cyrsiau hyn yn 'iawn fel man cychwyn, ond nid ydynt yn ddigon da wrth i lefelau iaith disgyblion wella.' Dywedodd un arall fod cyrsiau o'r fath, yn ogystal â'r adnoddau sy'n mynd gyda hwy fel arfer, yn 'bodloni anghenion tymor byr' yn hytrach na rhoi'r sgiliau iaith i ymarferwyr sydd eu hangen yn yr hirdymor. Dywedodd nifer o gyfranwyr fod angen edrych yn agosach ar effeithiau'r cyrsiau iaith cymharol fyr hyn ar allu o fewn ysgolion i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu.

4.5.8 Credai rhai bod cwrs CIMCai a gynigir gan Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint [55] yn cynnig gwerth am arian[56].

---

[54] Mewn tri bloc deuddydd dros flwyddyn academaidd

[55] Cyflwynir cyrsiau ar wahân gan Wrecsam a chan gonsortiwm Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint

[56] Er nad yw'n ymwneud â chyflwyno CIMCai ar hyn o bryd, mae Bro Morgannwg wedi datgan diddordeb yn y model

***Astudiaeth Achos: CIMCai (Cwrs Iaith a Methodoleg Cymraeg ail iaith)***

Mae CIMCai yn gwrs rhan amser pedair blynedd sy'n cynnwys:

- sesiynau wythnosol fin nos dros gyfnod o 26 wythnos;
- pedwar diwrnod o hyfforddiant yn canolbwyntio ar thema, gyda sesiynau ar wahanol feysydd o ddiddordeb;
- arsylwi chwe gwers a gyflwynir gan gyfranogwyr cwrs; a
- cwblhau aseiniadau ysgrifenedig 'trwm' ar ddiwedd y flwyddyn lle mae angen i gyfranogwyr 'ddarllen yn eithaf helaeth am addysgu ail ieithoedd ... i edrych ar eu harfer addysgu eu hunain ... a bwydo'r theori dysgu i'w datblygiad proffesiynol eu hunain.'

Targedir y cwrs at ymarferwyr sy'n 'ddechreuwyr pur' (o safbwynt yr iaith Gymraeg) ac mae'n anelu at ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg yr un pryd â'u sgiliau pedagogaidd. Mae elfen iaith y cwrs yma'n seiliedig ar fframwaith TGAU o ran geirfa a chystrawen/patrymau iaith, sy'n golygu bod ymarferwyr yn cael eu cyflwyno i'r sgiliau iaith y mae angen iddynt eu trosglwyddo i ddisgyblion. Seilir y cwrs hwn ar egwyddorion 'Pedagogiaeth Effeithlon' ac mae'n annog dysgu adfyfyriol drwy 'ymchwil gweithredol' a thrafodaeth gyda chymheiriaid ar effeithiau ac effeithlonrwydd ymagweddau neilltuol. Mae Athrawon Bro yn ganolog o ran darparu CIMCai (maent yn diwtoriaid yn y sesiynau fin nos wythnosol). Maent hefyd yn arsylwi cyn-gyfranogwyr y cwrs yn defnyddio eu dulliau addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn marcio aseiniadau ddiwedd blwyddyn.

Achredwyd CIMCai gan Brifysgol Bangor[57] ac mae'n arwain at gredydau lefel Meistr. Mae'r cwrs yn cymryd pedair blynedd i'w gwblhau, er y gall cyfranogwyr wneud blwyddyn neu ddwy ac ennill credydau wrth fynd yn eu blaenau[58]. Yn wir, gall unigolion hefyd gyfuno modiwlau CIMCai gyda

[57] Yn dilyn safoni sampl o asesiadau wedi eu marcio gan Athrawon Bro

[58] Dyfernir 30 credyd pan gwblheir pob blwyddyn yn llwyddiannus: ar ôl dwy flynedd, mae cyfranogwyr yn ennill Tystysgrif mewn Datblygiad Blynyddoedd ac ar ôl pedair blynedd, Ddiploma mewn Datblygiad Proffesiynol

modiwlau eraill lefel Meistr e.e. Dyslecsia wrth weithio tuag at Radd Meistr. Gall cyfranogwyr sy'n cwblhau CIMCai fynd ymlaen i ysgrifennu traethawd hir sy'n werth 60 credyd er mwyn ennill Gradd Meistr. Mae Prifysgol Bangor yn codi ffi cofrestru ar Awdurdodau Lleol o oddeutu £170 y pen y flwyddyn.

Cydnabuwyd bod CIMCai yn galw am ymrwymiad sylweddol ar ran yr athrawon sy'n cymryd rhan. Serch hynny, dywedwyd ei fod yn 'gwrs ymarferol iawn ac felly'n effeithio'n syth ar waith [y cyfranogwyr] yn yr ystafell ddosbarth'. Ymhellach, credid bod y ffocws cyson ar addysgu iaith berthnasol a methodoleg dros gyfnod hwy yn sicrhau canlyniadau mwy hirhoedlog na chyrsiau iaith/dull cryno, byr. Dywedodd un a gymerodd ran yn CIMCai ei fod wedi ei helpu i 'gynyddu gwybodaeth pwnc y medrid ei ddefnyddio mewn camau bach yn yr ystafell ddosbarth yn dilyn cyfarfodydd/gwersi wythnosol' gan ychwanegu ei bod yn awr yn 'deall ffyrdd gwahanol a mwy amrywiol o addysgu Cymraeg' a bod yr 'wybodaeth yma hefyd wedi fy helpu i addysgu pynciau eraill.' Dywedodd Cydlynydd Iaith Gymraeg ysgol gynradd gyda sgiliau cyfyngedig yn y Gymraeg am rywun arall a gymerodd ran, 'Roedd gen i gymaint o barchedig ofn at y ddynes a fu ar CIMCai …ei hymrwymiad i'r pwnc, y gweithgareddau roedd yn eu gwneud pan nad oedd ei Chymraeg mor dda â hynny.'

Mae rhai cyfranogwyr yn credu bod gwneud aseiniadau CIMICai yn rhy feichus ac er eu bod felly'n methu 'cwblhau' y cwrs, ystyriwyd bod y sesiynau wythnosol a'r dysgu adfyfyriol a gynhaliwyd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Ymhellach, soniodd nifer o gyfranwyr am yr effaith gadarnhaol a gafodd CIMCai ar yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan a hefyd ar yr ysgolion lle maent yn gweithio.

Yn ôl un sylwebydd, fodd bynnag, gall y cwrs fod yn eithaf drud i'w gyflwyno oherwydd y nifer cymharol fach o ymarferwyr sy'n cymryd rhan, gan olygu bod costau mewnbwn tiwtor fesul cyfranogydd yn uwch.

***Astudiaeth Achos: Cynllun Sabothol yn Sir Benfro***

Fel y trafodwyd mewn astudiaeth achos gynharach, ceisiodd Sir Benfro symud cyfrifoldeb am addysgu Cymraeg a datblygu dwyieithrwydd ymaith o dîm Athrawon Bro y sir i'r ysgolion eu hunain. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Awdurdod wedi annog ysgolion i recriwtio staff dwyieithog lle bo hynny'n bosibl. Manteisiwyd hefyd ar y Cynllun Sabothol (cwrs lefel Sylfaen) a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a ddatblygwyd ac a gyflwynir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Chanolfan Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru yn benodol ar gyfer ymarferwyr heb fawr o wybodaeth flaenorol o'r Gymraeg. Mae'r Cynllun Sabothol yn wahanol i'r Cynllun Sabothol (cwrs lefel Uwch) a ddatblygwyd gan Brifysgolion Bangor a Chaerdydd, ac a dargedwyd at bobl gyda rhywfaint o sgiliau yn y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr sydd ar y cwrs lefel sylfaen wedi cael eu hadnabod gan yr Awdurdod Lleol. Maent yn dilyn tri mis o hyfforddiant iaith dwys sy'n cynnwys methodoleg addysgu Cymraeg a'r cysyniad o ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysgu pynciau eraill. Yn hollbwysig, mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau bod sgiliau newydd yr athrawon a gymerodd ran yn cael eu defnyddio ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

Er ei bod hi'n rhy gynnar i asesu effaith agwedd newydd Sir Benfro at hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu dwyieithrwydd, roedd cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ac ysgolion fel ei gilydd yn frwdfrydig am yr hyn a gyflawnwyd.

4.5.9 Cwynodd un cyfrannwr nad yw Cymru yn gwneud digon o'r ffaith ei bod 'ar flaen y gad' yn nhermau galluogi athrawon di-Gymraeg i addysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Dadleuodd y byddai athro sydd ddim yn siarad Ffrangeg 'oedd yn cael dosbarth o blant i ddweud 'bonjour' ym Mryste yn cael erthygl hanner tudalen yn y Times Ed', ond mai ychydig a glywir am

lwyddiant rhai a fu ar gwrs CIMCai mewn addysgu'r Gymraeg ar lefel tipyn uwch i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

4.5.10 Mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi cynnal cyrsiau byr (hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan) i gyflwyno *'Cymraeg achlysurol'* a *'gemau iard'* Cymraeg i Gymhorthwyr Addysgu a staff cymorth di-Gymraeg. Yn ogystal â hyn, mae timau Athrawon Bro mewn rhai ardaloedd wedi cyflwyno sesiynau hyfforddiant byr ar Gymraeg sylfaenol i staff cynorthwyol mewn ysgolion.

4.5.11 Mae Gwynedd a Môn yn eithriadol ymysg Awdurdodau Lleol gan nad ydynt yn cynnig cyrsiau i alluogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r ddau Awdurdod yma wedi gweithredu polisïau recriwtio sy'n ei gwneud yn ofynnol i fedru gweithio'n ddwyieithog (gyda nifer fach iawn o eithriadau) a'r dybiaeth yw mai'r Gymraeg fydd y brif iaith a ddefnyddir ym mhob ystafell ddosbarth ac yn fwy cyffredinol ym mywyd yr ysgol. Ar y sail hon, dadleuwyd nad oes gan yr un o'r ddau Awdurdod 'y cohort hwnnw o athrawon sydd angen iddynt ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, fel sy'n wir mewn ardaloedd eraill'.

4.5.12 Yn y cyswllt hwn, nodir mai ychydig iawn a wneir i asesu sgiliau Cymraeg ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r eithriadau i hyn yn cynnwys arolwg blynyddol o ysgolion a gynhaliwyd ym Mhowys, lle gofynnir i ymarferwyr asesu eu sgiliau eu hunain yn y Gymraeg ar raddfa o 1 i 5 a rhoi gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant yn gysylltiedig â'r Gymraeg a gawsant. Er bod yr wybodaeth yma yn cael ei defnyddio i helpu cynllunio HMS, nid yw'n cael ei defnyddio i gynllunio nac i flaenoriaethu gweithgaredd Athrawon Bro. Mae ysgolion yn derbyn yn gyfrannol yr un lefel o gefnogaeth Athrawon Bro beth bynnag yw gallu iaith Gymraeg eu staff.

4.5.13 Nodwyd nad oedd cyfranwyr yn gyffredinol yn gweld cysylltiad rhwng datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'r rhaglen Cymraeg i Oedolion.

4.5.14 Nid yw Awdurdodau Lleol yn cynnal cyrsiau gloywi Cymraeg ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Fodd bynnag, maent yn cynnig cyrsiau yn ymwneud ag addysgu'r Gymraeg fel mamiaith ac mae'n amlwg fod nifer o'r teitlau a gyflwynwyd dros y ddwy flynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a llythrennedd sylfaenol yn y Gymraeg i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Roedd eu ffocws ar addysgu 'llefaredd', 'darllen' ac 'ysgrifennu'. Mewn rhai ardaloedd, roedd hyn yn cysylltu'n bwrpasol ddigon gyda gweithgareddau a noddwyd gan Sgiliau Sylfaenol Cymru.

4.5.15 Mae awdurdodau hefyd wedi cynnig ystod o deitlau mwy cyffredinol sy'n cynnwys dimensiwn iaith/cyfrwng Cymraeg, er enghraifft:

- o cynllunio pwrpasol i ddatblygu sgiliau iaith yng nghyd-destun Cwricwlwm 2008 a'r Fframwaith Sgiliau;
- o datblygu sgiliau meddwl mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- o datblygu 'dwyieithrwydd' (anelwyd at benaethiaid ysgol cynradd a chydlynwyr iaith Gymraeg); a
- o defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu mewn addysgu dwyieithog.

4.5.16 Mewn llawer o ardaloedd, mae'r cyrsiau a gyflwynir gan CBAC fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant mewn swydd genedlaethol yn elfen bwysig o'r hyfforddiant a gynigir i ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

4.5.17 Dyrennir grant blynyddol o £120 mil i CBAC (brig-dorrir yr arian hwn o'r Gronfa Ysgolion Gwell ac mae disgwyl i Awdurdodau Lleol gyfranu £80 mil ychwanegol o'u coffrau eu hunain er mwyn cyrraedd cyfanswm o £200 mil) i'w alluogi i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a phob Awdurdod Lleol i:

- o baratoi pecynnau hyfforddi. Hyrwyddir yr agwedd hon o waith CBAC trwy rwydwaith o gynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol yn cynnwys athrawon ymgynghorol ac Athrawon Bro. Mae'r grwpiau o gydlynwyr

ar gyfer y Gymraeg a Chymraeg ail iaith yn y cynradd ac uwchradd yn cyfarfod ddwywaith y tymor dan arweiniad Swyddog Cenedlaethol Datblygiad Proffesiynol CBAC. Cynhelir y gweithgorau hyn ar ffurf gweithdai i lunio pecynnau hyfforddi a rhannu arferion da;

- o darparu digwyddiadau hyfforddi, gan gynnwys trefnu cynhadledd ddeuddydd flynyddol ar gyfer Athrawon Bro. Mae'r gynhadledd yn cynnwys cyflwyniadau gan arbenigwyr mewn addysgu iaith, arddangosfa o ddeunyddiau addysgu a dysgu a rhoddir cyfle i Athrawon Bro rwydweithio a thrafod profiadau gyda'u cymheiriaid o ardaloedd eraill; a
- o chynnal cofrestr o hyfforddwyr cynorthwyol sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant.

4.5.18 Caiff CBAC ei gynorthwyo i gynllunio ac ymgymryd â'r gwaith hwn gan ddau grŵp llywio. Mae un grŵp llywio'n ymwneud â'r Gymraeg fel pwnc a'r llall yn ymwneud ag addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddau grŵp yn cwrdd tua dwywaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys staff ymgynghori Awdurdodau Lleol yn ogystal â chynrychiolydd o Estyn. Mae'r trefniant yn gwarantu dull o sicrhau bod y rhaglenni hyfforddiant a drefnir gan CBAC yn ategu yn hytrach na chystadlu gyda'r hyfforddiant a ddarperir gan Awdurdodau Lleol.

4.5.19 Mae CBAC yn dyrannu 'dogn' i bob Awdurdod Lleol sy'n cael ei ddefnyddio i 'brynu hyfforddiant gan gofrestr o hyfforddwyr cynorthwyol arbenigol a gedwir gan CBAC'[59]. Ar brydiau, darperid yr hyfforddiant mewn cysylltiad ag Awdurdodau Lleol cyfagos. Yn ôl Estyn, mae'r system hon yn galluogi Awdurdodau Lleol i gynllunio darpariaeth hyfforddiant yn seiliedig ar alw a ddynodwyd ar lefel leol ac i ddefnyddio gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i ategu at raglenni HMS lleol. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn tueddu i ddefnyddio Athrawon Bro i 'raeadru' hyfforddiant a gyflwynir gan hyfforddwyr/siaradwyr CBAC er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach o ymarferwyr.

[59] Y ddau eithriad i hyn yw Môn a Gwynedd, sy'n derbyn cyllid gan CBAC i brynu hyfforddiant dan ddarparwr lleol, Cynnal.

4.5.20 Yn ogystal â'r hyfforddiant a gynigir, mae CBAC yn datblygu deunyddiau hyfforddiant sydd ar gael drwy wefan GCaD Cymru. Gwna hynny trwy gydweithio â gweithgorau'r cydlynwyr Cymraeg a Chymraeg ail iaith sy'n cynrychioli'r awdurodau lleol. Dywedodd Estyn bod GCaD yn cael ei defnyddio'n helaeth a'i bod yn fuddiol i athrawon a staff Awdurdodau Lleol.

4.5.21 Daeth arolwg Estyn (2003) i ben drwy argymell bod Awdurdodau Lleol yn 'parhau i gefnogi'r rhaglenni hyfforddi Cymraeg a chyfrwng Cymraeg trwy weithio mewn partneriaeth gyda CBAC a rhyddhau staff i gymryd rhan mewn gweithgorau', ac argymell eu bod yn 'parhau i ariannu'r rhaglenni'. Argymhellwyd hefyd bod Awdurdodau Lleol yn 'datblygu offeryn hunan-asesu i adrodd yn ôl i CBAC am lwyddiant y rhaglenni'.

4.5.22 Ategir yr hyfforddiant a gynigir gan CBAC gan ddewislen o gyrsiau a gynigir gan CYDAG. Mae sampl o'r teitlau a gyflwynwyd gan y ddau sefydliad yn 2009/10 yn Atodiad Ch. Dylid nodi fod CYDAG a CBAC yn cydweithio i gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn pynciau lle mae'r galw yn gyfyngedig (e.e. Cemeg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Nhorfaen). Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall CBAC ddefnyddio elfen o gwotâu Awdurdodau Lleol perthnasol i gyfrannu tuag at gostau hyfforddiant pwnc penodol a gyflwynir gan CYDAG.

4.5.23 Roedd cyfranogwyr yn gyffredinol yn llai cyfarwydd gyda'r cyrsiau a gynigir gan CYDAG, er ei bod yn debyg bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Athrawon Bro yn tueddu i fod â llai o ymwneud gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn benodol.

4.5.24 Mae llawer o'r HMS a ddarperir gan Awdurdodau Lleol yn cael ei gynnal ar sail clystyrau o ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys clystyrau o ysgolion cynradd sy'n bwydo ysgolion uwchradd neilltuol neu glystyrau o ysgolion uwchradd o fewn ardaloedd daearyddol neilltuol. Roedd nifer o gyfranwyr yn nodi'r rhain fel enghreifftiau o 'Rwydweithiau o Ymarfer

Proffesiynol’, gydag un yn dadlau ‘y cyfan ydi o yw enw newydd ar gyfer rhywbeth y buom ni’n ei wneud am flynyddoedd ... ac mae clystyrau’n helpu ei gilydd yn barod gyda phethau fel ysgrifennu polisïau, trafod heriau, datblygu adnoddau, rhannu arfer dda ... mae lle i wella, ond mae’r rhesymeg yno eisoes’.

# 5 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

5.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi ei bwriad i gynyddu nifer y bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg, ac mae wedi nodi rôl ysgolion i wireddu'r uchelgais honno. Ar yr un pryd, mae wedi cydnabod, drwyddi draw, nad yw'r system addysg yn gwneud digon i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg pobl ifanc. Mae Estyn, dro ar ôl tro, wedi amlygu gwendidau sylweddol wrth ddarparu Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mewn gwirionedd, nid oes gan amryw o ysgolion y gallu i addysgu Cymraeg na defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu.

5.2 Mae dau ddatblygiad polisi diweddar wedi amlygu'r diffyg hwn yn neilltuol o glir i ysgolion ac i Awdurdodau Lleol, sef:

- cyflwyno asesiadau disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2; a
- chyflwyno Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd Estyn sy'n rhoi ystyriaeth i 'ddarpariaeth y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig'.

5.3 Wrth gwrs, mae'r her a wynebir yn amrywio o ardal i ardal. Yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog yn brwydro i gadw eu nodweddion ieithyddol drwy gynnig gwasanaeth i fewnfudwyr di-Gymraeg. Mewn ardaloedd lle siaredir llai o Gymraeg, mae rhai ysgolion yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff a all addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod amrywiaeth sylweddol yn y dull a ddefnyddir gan wahanol Awdurdodau Lleol i gefnogi'r iaith Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn ysgolion.

5.4 Dros y blynyddoedd, bu Athrawon Bro a gwasanaethau cymorth cysylltiedig yn hollbwysig o ran eu cefnogaeth i ysgolion, yn arbennig ysgolion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol nad yw gwasanaethau Athrawon Bro, fel y maent ar hyn o bryd, yn ddigonol i

sicrhau'r newid a ddymunir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae angen brys am arweinyddiaeth genedlaethol er mwyn sicrhau bod capasiti yn cael ei adeiladu o fewn ysgolion i addysgu'r Gymraeg fel iaith ac i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i addysgu pynciau eraill.  Nid yw'r status quo, sydd at ei gilydd, yn parhau i gynhyrchu canlyniadau siomedig o ran cyraeddiadau disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith, yn dderbyniol. Mae angen newid sylweddol er mwyn sicrhau ad-enillion gwerthfawr ar y buddsoddiad mewn addysg, i drethdalwyr a disgyblion sy'n treulio blynyddoedd yn dysgu'r Gymraeg (fel iaith gyntaf ac ail iaith) gydol eu gyrfaoedd addysgol.

5.5 Fel cam cyntaf, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bwysleisio ei bwriad i gefnogi Awdurdodau Lleol ac ysgolion i ddatblygu eu capasiti yn y Gymraeg.  Gellid gwneud hyn mewn dwy ffordd:

- o drwy eu galluogi i recriwtio staff newydd gyda'r sgiliau ieithyddol a phedagogaidd gofynnol; a
- o drwy eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau Cymraeg eu hathrawon presennol.

5.6 Rhydd y newidiadau cyfredol mewn trefniadau ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yng Nghymru gyfle delfrydol i arfogi darpar athrawon â'r sgiliau iaith a methodoleg sydd eu hangen i addysgu Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, a Chymraeg (iaith gyntaf) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Yn wir, mae pob canolfan HCA eisoes yn darparu cwrs Cynllun Colegau Cymru sy'n cyfuno sgiliau iaith a methodoleg i arfogi darpar athrawon i addysgu'r Gymraeg fel ail iaith, ond mae angen cysoni'r ddarpariaeth honno a'r disgwyliadau. Dylai buddsoddiad parhaus yn sgiliau iaith a phedagogaidd athrawon newydd helpu sicrhau cynnydd graddol o ran capasiti mewn ysgolion dros y blynyddoedd i ddod.

| **_Argymhelliad 1_** |
|---|
| Dylai'r holl gyrsiau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (drwy CCAUC) gynnwys |

modiwlau achrededig gorfodol sydd â'u ffocws ar ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a datblygu sgiliau i ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Ni ddylai siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf gael eu heithrio o'r modiwlau hyn.

5.7 Yn gysylltiedig â hyn, dylid annog ysgolion i recriwtio staff gyda sgiliau Cymraeg priodol lle bynnag bo'n bosib. I ryw raddau, dylai'r ffocws a roddir ar y 'dimensiwn Cymraeg' o fewn Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd Estyn, yn ogystal â'r disgwyl iddynt asesu cyraeddiadau disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith, gynyddu'r pwysigrwydd a roddir gan ysgolion i sgiliau Cymraeg yn y dyfodol.

5.8 Tra y gallai recriwtio staff newydd gyda'r sgiliau priodol gyfrannu at adeiladu capasiti yn y Gymraeg o fewn ysgolion, nid yw'n ddigon ynddo'i hyn, yn enwedig yn y tymor byr. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol eisoes yn darparu cyrsiau a gynlluniwyd i ddatblygu sgiliau iaith ymarferwyr sydd heb fawr o wybodaeth o'r Gymraeg. Tra bod y cyrsiau hyn yn sicr yn gwneud rhywfaint o wahaniaeth, mae amheuaeth ynglŷn â'u heffeithlonrwydd wrth ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg fel ail iaith neu ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r defnydd mwyaf arwynebol. Credir bod cwrs CIMCai a'r Cynllun Sabothol yn fwy effeithiol wrth ddatblygu ymarferwyr sy'n gallu ac sy'n barod i addysgu Cymraeg ail iaith, neu ddefnyddio'r iaith yn yr ystafell ddosbarth. Serch hynny, mae'r dystiolaeth gwrthrychol i gefnogi'r farn hon yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

5.9 Er nad oes fawr o dystiolaeth o effeithlonrwydd y ddwy raglen yma hyd yn hyn, bu buddsoddiad cyhoeddus sylweddol ynghlwm â'u datblygu. Yn sicr, gellid dysgu llawer gan y ddwy raglen a byddai'n werth i Lywodraeth y Cynulliad weithio gyda darparwyr y naill a'r llall i ddatblygu rhaglen genedlaethol.

***Argymhelliad 2***

Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda rhanddeiliaid sy'n ymwneud â darparu cwrs CIMCai a'r Cynllun Sabothol, yn ogystal ag o leiaf un

o'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion i ddylunio rhaglen Gymru-eang i ddatblygu sgiliau iaith a methodoleg ymarferwyr sydd ag ychydig o afael ar yr iaith, er y dylai fod pwyslais ar ddatblygu sgiliau iaith. Wrth ddatblygu'r rhaglen, dylid ystyried dwyster a hyd yr hyfforddiant yn ogystal â sut y gellid cynnal a datblygu sgiliau iaith ymarferwyr ymhellach. Dylid ystyried rôl Athrawon Bro yn hyn o beth wrth ddatblygu'r rhaglen.

Dylid datblygu'r rhaglen erbyn dechrau'r haf 2011 a'i pheilota gyda nifer benodol o ymarferwyr o Fedi 2011 ymlaen, cyn ei hymestyn yn fwy eang, os yn llwyddiannus.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru neilltuo cyllideb er mwyn peilota'r rhaglen hon drwy frigdorri arian Blaenoriaeth 2 o fewn y Gronfa Ysgolion Gwell yn ogystal â defnyddio arian sydd eisoes wedi ei neilltuo tuag at y Cynllun Sabothol.

***Argymhelliad 3***

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn monitro effaith y dulliau cyfredol o ddatblygu sgiliau Cymraeg a sgiliau pedagogaidd cysylltiedig ymarferwyr. Dylid ystyried asesu'r mesurau isod ar ddechrau'r hyfforddiant ac ar wahanol bwyntiau ar ôl hynny:

- lefelau iaith ymarferwyr sy'n cymryd rhan;
- hyder yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan mewn addysgu'r Gymraeg fel pwnc a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer cyfathrebu gyda disgyblion; a'r
- defnydd a wneir o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth gan yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant.

Oherwydd diffyg ffon fesur gyffredin ar hyn o bryd, medrai hyn olygu datblygu cyfres o ddulliau asesu syml i alluogi mesur lefelau iaith ymarferwyr ar bwyntiau arbennig. Dylid clymu hyn i lefelau Cymraeg i Oedolion gan ddefnyddio system ALTE (Association of Language

Teachers in Europe), er y bydd angen teilwra hynny i adlewyrchu iaith addas ar gyfer addysgu. Dylid hefyd ddefnyddio'r mesurau a'r arfau a ddatblygir i asesu effaith ac effeithlonrwydd y rhaglen hyfforddiant Cymru-eang y sonnir amdani uchod.

Yn ogystal, dylid defnyddio'r un meini prawf i fesur cyflawniadau hyfforddeion wrth iddynt gymhwyso'n athrawon er mwyn sicrhau dilyniant yn yr hyfforddiant wrth iddynt ddechrau eu gyrfaoedd. Byddai modd sicrhau' r diyniant hwnnw trwy'r Proffil Dechrau Gyrfa.

5.10 Wrth gwrs, ni all Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon na hyfforddiant mewn swydd ddatrys y problemau mae amryw o ysgolion cyfrwng Saesneg yn eu hwynebu heddiw. Yn y tymor byr, bydd angen cynnal y gefnogaeth a gynigir gan Athrawon Bro. Serch hynny, mae angen cynnig y gwasanaethau hyn dan delerau gwahanol. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi cychwyn targedu eu gwasanaethau Athrawon Bro yn fwy pwrpasol yn ddiweddar, gyda'r nod o feithrin gallu o fewn ysgolion. Dylai'r ymarfer yma ddod yn fwy eang a dylai grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod yn amodol ar allu Awdurdodau Lleol i ddangos bod ganddynt gynlluniau tair blynedd clir sydd yn amlinellu sut mae ysgolion yn eu hardaloedd yn bwriadu datblygu capasiti yn yr iaith Gymraeg.

***Argymhelliad 4***

Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg wahodd Awdurdodau Lleol sy'n bwriadu ceisio am arian grant i gyflwyno cynlluniau tair blynedd sy'n dangos sut y byddant yn targedu gwasanaethau Athrawon Bro er mwyn datblygu capasiti cynaliadwy. Wrth wneud hyn, dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg wneud yn glir nad yw'n bwriadu ariannu gwasanaethau sir-eang sydd ddim yn arwain at newidiadau mesuradwy yng nghapasiti iaith Gymraeg pob ysgol gynradd sydd ddim yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac o dan ofal yr Awdurdod Lleol.

5.11 Yn yr un modd, dylai Awdurdodau Lleol ei gwneud yn glir i ysgolion mai pwrpas gwasanaeth Athrawon Bro yw eu helpu i ddatblygu eu capasiti

Cymraeg ac y bydd y gwasanaeth yn cael ei gyfyngu i'r ysgolion hynny sy'n cyfarfod â meini prawf penodol. I bob pwrpas, mae angen i Awdurdodau Lleol symud disgwyliadau ysgolion, fel eu bod yn cymryd cyfrifoldeb dros eu capasiti iaith eu hunain, yn hytrach na dibynnu ar Athrawon Bro i gau bylchau yn sgiliau ieithyddol eu staff.

***Argymhelliad 5***

Dylai Awdurdodau Lleol nodi'r meini prawf y byddant yn eu defnyddio i flaenoriaethu a thargedu ysgolion. Medrai'r meini prawf gynnwys:

- o ysgolion sy'n anelu i newid cyfrwng neu gynyddu'n sylweddol y gyfran addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg;
- o ysgolion sy'n anelu i fwydo cyfran uwch o ddisgyblion i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg;
- o ysgolion gyda'r canlyniadau gwaethaf yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2;
- o ysgolion sydd yn wynebu colli staff allweddol sy'n ymwneud ag addysgu Cymraeg neu hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- o ysgolion yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle dynodir anawsterau penodol gan Dimau Gwella Ysgolion.

Dylai ysgolion gael eu gwahodd i geisio am gefnogaeth Athrawon Bro, gyda'r rhai sy'n cyflwyno'r cynlluniau mwyaf cydlynol a realistig yn cael eu blaenoriaethu.

5.12 Ochr yn ochr â thargedu gwasanaethau, mae angen rhoi mwy o sylw i asesu effeithiau Athrawon Bro a gwasanaethau cysylltiedig ar ysgolion. Mewn llawer o achosion, mae uwch swyddogion addysg yn cydnabod nad oes ganddynt systemau effeithiol ar gyfer mesur effaith gwaith Athrawon Bro ar wella sgiliau iaith a monitro a gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth.

***Argymhelliad 6***

Dylid gofyn i Awdurdodau Lleol osod targedau effaith CAMPUS[60]. Er nad ydynt yn ddangosyddion perffaith o effaith gwaith Athrawon Bro a gwasanaethau cysylltiedig ar ysgolion, gallai'r mesurau y medrid eu defnyddio gynnwys:

- o y gyfran o'r cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn ysgolion a dargedir;
- o cyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2[61] o fewn ysgolion a dargedir;
- o cyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnodau Allwedol 1, 2 a 3 o fewn ysgolion a dargedir;
- o y gyfran o ddisgyblion sy'n symud i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu'n cael addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog o fewn ysgolion a dargedir.

Dylai gwybodaeth feddal ar ffurf adroddiadau effaith gan ysgolion hefyd gael ei defnyddio i adeiladu darlun o effeithiau ac effeithlonrwydd gwasanaeth yr Athrawon Bro.

5.13 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Athrawon Bro wedi rhoi lefel sylweddol o gefnogaeth i ysgolion sydd ddim yn ysgolion cyfrwng Cymraeg i asesu lefelau disgyblion Blwyddyn 6 yn y Gymraeg fel ail iaith. Mewn llawer o ardaloedd, roedd hyn yn golygu gweithio gyda chlystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu proffiliau safonol i roi lefel i ddisgyblion, yn gysylltiedig â chynlluniau pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Er fod rhai timau o Athrawon Bro wedi gweithio ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol yn y cyswllt hwn, mae'r gwaith yn ddi-os wedi golygu rhywfaint o ddyblygu ac mae'n amlwg fod risg y gallai systemau a ddatblygwyd yn lleol arwain at ddiffyg cysondeb ar draws Cymru ac felly danseilio hygrededd y broses asesu.

[60] Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
[61] Ac, o 2012, ar Gyfnod Allweddol 1

***Argymhelliad 7***

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd camau i sicrhau cysondeb wrth safoni asesiadau disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn Cymraeg fel ail iaith.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen defnyddio arbenigedd unigolion allweddol o fewn timau unigol Athrawon Bro/Gwasanaeth Gwella Ysgolion i 'safoni' deunyddiau a gynhyrchwyd eisoes gan ymarferwyr ym mhob ardal.

5.14 Mae timau Athrawon Bro hefyd wedi cynhyrchu ystod eang o ddeunyddiau addysgu a dysgu eraill sydd yn anorfod wedi arwain at ddyblygu yn y cyswllt hwn hefyd. Mae'n sicr bod angen i'r broses o gynhyrchu adnoddau fod yn fwy strategol a bod angen ymestyn y defnydd a wneir o adnoddau drwy eu rhannu'n ehangach ar draws timau Athrawon Bro ledled Cymru.

***Argymhelliad 8***

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i CBAC (sef y corff sy'n rhoi cartref i GCaD) wahodd Awdurdodau Lleol i gyflwyno enghreifftiau o'r adnoddau y maent wedi eu datblygu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, a dewis y rhai mwyaf defnyddiol ac addas i gael eu llwytho ar y safle-gwe. Dylid sicrhau bod y rhain yn cael eu gwella'n esthetig neu'n dechnegol, yn ôl yr angen. Dylai'r Awdurdodau Lleol gael eu gwobrwyo am rannu eu hadnoddau drwy CBAC. Byddai hyn yn gyfystyr â chomisiynu gwasanaethau yn ôl-weithredol. Dylid gofyn i CBAC hwyluso panel o Athrawon Bro neu Ymgynghorwyr Iaith i ddynodi bylchau yn adnoddau presennol GCaD.

Ar ôl llwytho adnoddau ar GCaD, dylid dynodi bylchau a dylai'r panel wneud argymhellion am y mathau o adnoddau sydd angen eu datblygu. Wedyn dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg gytuno ar raglen o ddatblygu adnoddau gyda CBAC, a dylid brig-dorri grantiau Awdurdodau Lleol i'w gwneud yn bosibl i

gynhyrchu deunyddiau addas. Ar yr un pryd, dylai Llywodraeth y Cynulliad/Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei gwneud yn glir i Awdurdodau Lleol mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid datlbygu adnoddau newydd ar lefel leol.

5.15 Mae Cynllun y Llan, a ddatblygwyd yng ngogledd orllewin Cymru yn cynrychioli rhaglen addysgu iaith strwythuredig a chynyddol, ac fe'i hategir gan gyfres o adnoddau sydd wedi cael eu treialu dros amser. Mae'r llwyddiant a welwyd yng Nghanolfannau Hwyrddyfodiaid Môn, Gwynedd a Chonwy dros y blynyddoedd yn dangos bod yr adnoddau hyn yn hynod effeithiol, yn enwedig pan maent yn cael eu defnyddio gan ymarferwyr â'r sgiliau priodol i ategu at ddulliau dwys o addysgu iaith. Dylid ystyried sut y gellid lledaenu'r defnydd a wneir o Gynllun y Llan i ardaloedd eraill yng Nghymru.

***Argymhelliad 9***

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol y gogledd i ystyried sut y gellid lledaenu'r defnydd a wneir o Gynllun y Llan o fewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

5.16 Mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, bu Canolfannau Hwyrddyfodiaid yn sylfaenol wrth addysgu disgyblion sydd heb fawr neu ddim profiad o'r Gymraeg fel eu bod yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Golyga hyn fod y Gymraeg yn parhau'n brif iaith cyfathrebu mewn ysgolion cynradd. Er fod y galw am leoedd mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid mewn rhai ardaloedd wedi gostwng yn ddiweddar, credwn y bydd yr angen am gyfleusterau o'r fath yn parhau yn y dyfodol agos.

***Argymhelliad 10***

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg wneud ymrwymiad i ddarparu cyllid sydd wedi ei neilltuo i gefnogi Canolfannau Hwyrddyfodiaid am gyfnodau o dair blynedd. Ar yr un

pryd, fodd bynnag, dylai'r Awdurdodau Lleol hynny a welodd ostyngiad yn y galw am leoedd mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid adolygu eu trefniadau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn fwy effeithiol.

5.17 Mae peth nerfusrwydd ymysg Awdurdodau Lleol ynglŷn ag ariannu gwasanaethau Athrawon Bro i'r dyfodol, yn enwedig oherwydd yr ansicrwydd ynghylch dyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a'r gostyngiad cyfredol mewn grantiau o'r Gronfa Ysgolion Gwell. Gall hyn achosi ansefydlogrwydd ymysg ymarferwyr sy'n allweddol i wireddu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

***Argymhelliad 11***

Dylai'r Adran Treftadaeth o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud datganiad clir y bydd yn parhau i gefnogi gwasanaethau Athrawon Bro drwy gyllid grant, beth bynnag sy'n digwydd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Dylai'r gyllideb mae'r Adran yn ymrwymo iddi fod o leiaf gyfwerth â'r grant presennol, a'i bod yn cynnwys yr arian ychwanegol y mae'r Bwrdd yn ei gyfrannu o'i goffrau ei hun.

Dylai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau hefyd wneud ymrwymiad i neilltuo swm tebyg o'r Gronfa Ysgolion Gwell i gefnogi gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Wedi gwarchod gwerth y grantiau a ddefnyddir ar hyn o bryd i ariannu gwasanaethau cefnogi'r Gymraeg o fewn ysgolion, dylid ystyried eu cyfuno er mwyn creu un cynllun grant cenedlaethol a fyddai'n cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dylid ymestyn yr amserlen ar gyfer dyfarnu cyllid grant o un flwyddyn i dair er mwyn annog dull mwy strategol o gynllunio'r gwasanaeth.

Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, dylid gofyn i Awdurdodau Lleol gynhyrchu adroddiadau cynnydd ac effaith integredig.

5.18 Mae'r agenda a amlinellir yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, yn ogystal â'r pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd, yn gwneud i Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth ddwys i weithio'n draws ffiniol. Rhagwelwn y bydd datblygiadau i'r cyfeiriad hwn yn cynyddu, gyda'r rhwydweithiau a sefydlwyd eisoes sy'n cynrychioli cyrff amlwg, yn symud pethau ymlaen. Wrth gwrs, mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes yn cydweithio wrth ddarparu gwasanaethau cefnogi'r Gymraeg i ysgolion, fel rheol ar sail trefniadau oedd yn bodoli cyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. Mae'r trefniant yn amrywio ymysg yr Awdurdodau, ond yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethau gan Cynnal ac ESIS yw'r modelau mwyaf grymus. Er nad oedd pob ymatebwr o blaid cydweithio traws ffiniol, mae dadl gref dros wneud hyn yn y dyfodol, a dylid sicrhau fod y strwythurau a roddir mewn lle yn rhai synhwyrol o safbwynt cefnogi'r Gymraeg.

***Argymhelliad 12***

Dylai'r 'uned gymorth genedlaethol' y cyfeirir ati yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg dderbyn y cyfrifoldeb dros sicrhau bod timau o Athrawon Bro (fel elfennau o Wasanaethau Gwella Ysgolion ehangach) yn gweithio'n draws ffiniol. Drwy wneud hynny, dylai'r uned gymorth genedlaethol ystyried y 'gyfatebiaeth' rhwng ardaloedd Awdurdod Lleol yn nhermau eu proffiliau iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod rhwydweithiau presennol (e.e. grwpiau ADEW) yn fan cychwyn defnyddiol, ni fedrwn gymryd yn ganiataol y bydd timau Athrawon Bro yn gweithio gyda'u cymdogion agosaf.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol ychwaith y bydd unrhyw 'rwydweithiau' a sefydlwyd yn parhau. Efallai eu bod wedi cyflawni eu diben drwy roi cyfle i gyrff gyfnewid syniadau a phrofiad dros gyfnod byr. Yn fwyaf pwysig, fodd bynnag, dylai'r uned gymorth genedlaethol gywain unrhyw wersi a ddysgwyd fel y gall drosglwyddo gwybodaeth ac arfer dda i rwydweithiau neu ardaloedd eraill.

## ATODIAD A: NODAU'R STRATEGAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

1. Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn bositif i'r galw ymhlith rhieni.

2. Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.

3. Sicrhau bod pob dysgwr yn datlbygu ei sgiliau iaith Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.

4. Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith Gymraeg da iawn a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.

5. Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

6. Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith Gymraeg mewn teuluoedd, yn y gweithle ac yn y gymuned.

## ATODIAD B: GWERTH GRANTIAU A DDYRANNWYD GAN FWRDD YR IAITH GYMRAEG

| | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **£(000)** | **£(000)** |
| Ynys Môn | 119 | 121 |
| Gwynedd | 226 | 229 |
| Conwy | 116 | 118 |
| Sir Ddinbych | 98 | 100 |
| Sir y Fflint | 115 | 116 |
| Wrecsam | 104 | 106 |
| Powys | 257 | 261 |
| Ceredigion | 133 | 135 |
| Sir Benfro | 168 | 171 |
| Sir Gaerfyrddin | 182 | 184 |
| Abertawe | 161 | 163 |
| Castell-nedd Port Talbot | 130 | 132 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 94 | 95 |
| Bro Morgannwg | 83 | 84 |
| Rhondda Cynon Tâf | 172 | 174 |
| Merthyr Tudful | 54 | 55 |
| Caerffili | 125 | 127 |
| Blaenau Gwent | 70 | 72 |
| Torfaen | 102 | 104 |
| Sir Fynwy | 83 | 84 |
| Casnewydd | 117 | 118 |
| Caerdydd | 192 | 195 |
| **Cyfanswm Cymru** | **2,901** | **2,944** |

## ATODIAD C: ISAFSWM GWARIANT CRONFA YSGOLION GWELL

| | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|
| | G5 | B2[62] |
| **Awdurdod Lleol** | **£0** | **£0** |
| Ynys Môn | 49 | 57 |
| Gwynedd | 87 | 96 |
| Conwy | 77 | 86 |
| Sir Ddinbych | 73 | 73 |
| Sir y Fflint | 107 | 112 |
| Wrecsam | 88 | 93 |
| Powys | 89 | 101 |
| Ceredigion | 47 | 53 |
| Sir Benfro | 86 | 98 |
| Sir Gaerfyrddin | 125 | 137 |
| Abertawe | 165 | 158 |
| Castell-nedd Port Talbot | 103 | 103 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 103 | 97 |
| Bro Morgannwg | 106 | 89 |
| Rhondda Cynon Tâf | 170 | 190 |
| Merthyr Tudful | 52 | 47 |
| Caerffili | 137 | 145 |
| Blaenau Gwent | 58 | 57 |
| Torfaen | 74 | 68 |
| Sir Fynwy | 60 | 57 |
| Casnewydd | 115 | 106 |
| Caerdydd | 232 | 202 |
| **Cyfanswm Cymru[63]** | 2,201 | 2,225 |

[62] Mae'r ffigurau ar gyfer 2010-11 yn cynrychioli gwariant o 15 y cant gan yr Awdurdodau Lleol ar Flaenoriaeth 2 y Gronfa Ysgolion Gwell (mae'n cyfateb â £3.7 miliwm gros neu £2.2 miliwn net). Brigdorrir arian elfen CBAC, sef £200,000 (gros), o arian gros CYG.
[63] Gall gynnwys gwall talgrynnu

# ATODIAD Ch: ENGHREIFFTIAU O DEITLAU CYRSIAU A GYFLWYNWYD YN 2009/10

**CBAC**

- Methodoleg
- Sgiliau Meddwl/Datblygu Meddwl
- Dysgu Rhyngweithiol
- Ysgrifennu Creadigol
- Ysgrifennu Ffeithiol
- Barddoniaeth
- Enghreifftio Safonau
- Codi Safonau yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3
- Cywirdeb Iaith

**CYDAG**

- Addysg Grefyddol a'r agenda sgiliau meddwl
- Daearyddiaeth a'r agenda sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 3
- Yr agenda sgiliau a dehongli hanes
- Cymraeg mamiaith – ysgrifennu creadigol
- Cerddoriaeth (sector cynradd)
- Mathemateg Amgen (sector cynradd)
- Cyfnod Sylfaen

## ATODIAD D: LLYFRYDDIAETH


http://www.esis.org.uk/creo_files/articles-544/Arweiniad_ar_gyfer_arolygu_ysgolion_cynradd_Medi_2010.pdf

http://www.esis.org.uk/creo_files/articles-544/Arweiniad_ar_gyfer_arolygu_ysgolion_uwchradd_Medi_2010.pdf

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996) Y GWASANAETH ATHRAWON BRO: *Adroddiad ar y gwasanaethau sy'n cefnogi dysgu Cymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol*

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999) Strategaeth ar gyfer grantiau a ddyrannwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Awdurdodau Addysg Lleol i hyrwyddo addysg Gymraeg

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006) Canllawiau a Fframwaith ar gyfer Cynlluniau Addysg Cymraeg Awdurdodau Lleol a gymeradwywyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2010) Crynodeb Ystadegau Blynyddol

Estyn, (2003) Arolwg o waith Athrawon Bro yng Nghymru

Estyn (2007) Arfarniad o effeithiolrwydd rhaglenni Hyfforddiant mewn Swydd Cenedlaethol CBAC

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion cynradd o Fedi 2010

Estyn (2010) Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion uwchradd o Fedi 2010

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) Y Wlad sy'n Dysgu, Dogfen Ymbaratoi. Rhaglen Addysg a Dysgu Gydol Oes gynhwysfawr hyd 2010 yng Nghymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2003-4

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2004-05

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri. Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yng Nghymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2005-06

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2006-07

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Y Wlad sy'n Dysgu: Cyflawni'r Addewid: Dogfen Ymgynghori

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Diffinio Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Fframwaith Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Cronfa Ysgolion Gwell 2005-06: Cylchlythyr 06/2005

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Cronfa Ysgolion Gwell 2005-06: Cylchlythyr 18/2005

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Cronfa Ysgolion Gwell 2007-08: Cylchlythyr 20/2006

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Cronfa Ysgolion Gwell 2009-10: Cylchlythyr 19/2008

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Cronfa Ysgolion Gwell 2009-10: Cylchlythyr 009/2010

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Dogen Ymgynghori Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Telerau ac Amodau Craidd Grant (2010-11): Cronfa Ysgolion Gwell